

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Datganiad Strategaeth Gyllido

1. Cyflwyniad

1.1 Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma Ddatganiad Strategaeth Gyllido (DSC) Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddu").

Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag actwari'r Gronfa, Hymans Robertson LLP, ac mewn ymgynghoriad â chyflogwyr ac ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa. Mae'n weithredol o 24 Mehefin 2021.

1.2 Beth yw Cronfa Bensiwn Gwynedd?

Mae'r Gronfa'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) cenedlaethol. Sefydlwyd y CPLIL gan Lywodraeth y DU i weithwyr llywodraeth leol, a gweithwyr eraill sydd wedi'u cyflogi gan gyrff tebyg neu gysylltiedig ledled y DU, er mwyn iddynt gael buddion wrth iddynt ymddeol ac ar ôl iddynt farw. Yr Awdurdod Gweinyddu sy'n rhedeg Cronfa Bensiwn Gwynedd, sef CPLIL ardal Gwynedd, ac mae'n sicrhau ei fod:

- yn derbyn cyfraniadau priodol gan weithwyr a chyflogwyr, a thaliadau trosglwyddo priodol;
- yn buddsoddi'r cyfraniadau'n briodol, gyda'r nod i asedau'r Gronfa dyfu dros amser yn sgil incwm o fuddsoddiadau a thwf cyfalaf; ac
- yn defnyddio'r asedau hynny i dalu buddion o'r Gronfa i aelodau (pan maent yn ymddeol, ac am weddill eu hoes), ac i'w dibynyddion (pan mae aelodau'n marw), yn unol â diffiniadau Rheoliadau'r CPLIL. Fel arfer, defnyddir asedau hefyd i dalu gwerthoedd trosglwyddo a chostau gweinyddol.

Gweler crynodeb o rolau a chyfrifoldebau'r partïon allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r Gronfa yn [Atodiad B](#).

1.3 Pam fod angen Datganiad Strategaeth Gyllido ar y Gronfa?

Mae Rheoliadau CPLIL yn gwarantu buddion gweithwyr, ac nid ydynt yn newid yn unol â gwerthoedd y farchnad neu gyfraniadau'r cyflogwr. Bydd yr enillion a ddaw o fuddsoddiadau yn helpu i dalu am rai o'r buddion, ond ddim am y cwbl, ac yn bendant nid oes sicrwydd o hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod swm penodol i gyfraniadau'r gweithwyr, ar lefel sy'n talu cyfran yn unig o gost y buddion.

Felly, mae angen i gyflogwyr dalu'r hyn sy'n weddill o ran y gost o roi buddion i aelodau a'u dibynyddion.

Mae'r DSC yn canolbwyntio ar sut y mesurir ymrwymiadau'r cyflogwr, pa mor gyflym y caiff yr ymrwymiadau hyn eu hariannu, a sut mae cyflogwyr neu grwpiau o gyflogwyr yn talu am eu hymrwymiadau eu hunain. Amlinella'r datganiad hwn sut mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cydbwysu nodau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd:

- fforddiadwyedd cyfraniadau'r cyflogwr,
- tryloywder prosesau,
- sefydlogrwydd cyfraniadau cyflogwyr, a
- bod y sail gyllido yn ddarbodus.

Mae gan DSC ofynion rheoleiddiol hefyd, fel y gwelir yn Atodiad A.

Mae'r DSC yn grynodedb o ddull y mae'r Gronfa yn ei defnyddio i gyllido ei ymrwymadau, ac mae hyn yn cynnwys cyfeirio at bolisiâu eraill y Gronfa; nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o bolisi ar yr holl faterion. Mae'r DSC yn ffurfio rhan o fframwaith sy'n cynnwys:

- Rheoliadau CPLIL;
- y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau (sy'n cadarnhau cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am y tair blynedd nesaf) sydd mewn atodiad i'r adroddiad prisio;
- ffactorau actwaraidd ar gyfer prisio trosglwyddiadau unigol, costau ymddeol yn gynnar a chostau prynu gwasanaeth ychwanegol;
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa (gweler Rhan 4)

1.4 Sut mae'r Gronfa a'r DSC hwn yn effeithio arnaf i?

Mae'n dibynnu pwy ydych chi:

- aelod o'r Gronfa, h.y. yn weithiwr ar hyn o bryd, yn gyn-weithiwr, neu'n ddibynnydd: mae angen i'r Gronfa fod yn sicr ei bod yn casglu ac yn dal digon o arian er mwyn medru talu eich buddion yn llawn bob tro;
- cyflogwr yn y Gronfa (neu sy'n ystyried ymuno â'r Gronfa): byddwch eisiau gwybod o dro i dro sut mae eich cyfraniadau'n cael eu cyfrifo, a bod hynny'n deg o gymharu â chyflogwyr eraill yn y Gronfa, yn ogystal â pha bryd fyddai angen i chi dalu mwy. Noder bod DSC yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa;
- Aelod Etholedig sy'n perthyn i gyngor sy'n rhan o'r Gronfa: byddwch eisiau bod yn sicr fod y cyngor yn cydbwysu'r angen i gadw arian darbodus wrth gefn ar gyfer buddion ymddeol a marwolaeth aelodau gyda materion eraill sy'n galw ar arian y cyngor;
- Trethdalwr: mae eich cyngor yn ceisio taro'r cydbwysedd fel yr uchod a hefyd lleihau symud arian fel croes gymhorthdal rhwng gwahanol genedlaethau o drethdalwyr.

1.5 Beth mae'r DSC yn bwriadu ei wneud?

Mae'r DSC yn amlinellu beth yw amcanion strategaeth gyllido'r Gronfa, megis:

- sicrhau diddyledrwydd hirdymor y Gronfa, edrych ar bethau yn yr hirdymor mewn modd darbodus. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i fodloni holl fuddion aelodau / dibynnyddion wrth iddynt ddod yn daladwy;
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog pan fo hynny'n briodol;
- lleihau'r cyfraniadau arian sydd yn rhaid i gyflogwyr eu talu i'r Gronfa, drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau ac ymrwymadau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac enillion (**DS** bydd hyn hefyd yn lleihau'r gost i drethdalwyr);

- i adlewyrchu gwahanol nodweddion y gwahanol gyflogwyr wrth bennu cyfraddau'r cyfraniadau. Fel rhan o hyn mae'n rhaid i'r Gronfa gael strategaeth gyllido glir a thryloyw i ddangos sut y gall pob cyflogwr gyflawni ei ymrwymadau yn y modd gorau yn y dyfodol;
- a defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn y pendraw i drethdalwyr pe bai cyflogwr yn methu talu ei ymrwymadau pensiwn.

1.6 Sut mae dod o hyd i bethau yn y ddogfen hon?

Yn Rhan 2, ceir cyflwyniad bras i rai o brif egwyddorion cyllido, h.y. penderfynu faint ddylai cyflogwr gyfrannu i'r Gronfa o dro i dro.

Yn Rhan 3 ceir amlinelliad o sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau gwahanol gyflogwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae Rhan 4 yn dangos sut mae'r strategaeth gyllido'n cael ei chysylltu i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r Atodiadau'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar amrywiaeth o faterion, megis:

- y cefndir o ran rheoleiddio, gan gynnwys sut a phryd fydd yr DSC yn cael ei adolygu,
- pwy sy'n gyfrifol am beth,
- y materion sydd angen i'r Gronfa eu monitro, a sut mae'n rheoli ei risgiau,
- mwy o fanylion am y cyfrifiadau actwaraidd sydd eu hangen,
- y rhagdybiaethau sydd gan actwari'r Gronfa am y dyfodol,
- rhestr termau sy'n egluro'r termau technegol a ddefnyddir yma o dro i dro.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, gallwch gysylltu yn y lle cyntaf â Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi drwy anfon e-bost i delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru.

2 Materion Cyllido Sylfaenol

(Ceir disgrifiadau manwl a helaeth yn Atodiad D).

2.1 Sut mae'r actwari'n mesur y gyfradd cyfraniadau sydd ei hangen?

Mae hon yn broses tri cham:

1. Cyfrifo'r targed cyllido eithaf ar gyfer y cyflogwr hwnnw, h.y. nifer yr asedau y dylai eu dal yn ddelfrydol er mwyn medru talu buddion ei holl aelodau. Gweler Atodiad E am fwy o fanylion ynghylch y rhagdybiaethau yr ydym yn eu gwneud i bennu'r targed cyllido hwnnw;
2. Pennu'r cyfnod amser sydd gan y cyflogwr i gyrraedd y targed cyllido hwnnw. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (c) am fwy o fanylion;
3. Cyfrifo gyfradd gyfraniadau'r cyflogwr fel ei bod o leiaf yn debygol o gyflawni'r targed cyllido o fewn y cyfnod amser penodedig, gan ystyried gwahanol ganlyniadau economaidd posib a pha mor debygol ydynt yn ystod y cyfnod amser hwnnw. Gweler 2.3 isod, a'r tabl yn 3.3 Nodyn (e) am fwy o fanylion.

2.2 Beth yw gyfradd gyfraniadau pob cyflogwr?

Caiff hyn ei ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad D. Fel arfer mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

- a) amcan o gost y buddion wrth iddynt gynyddu pob blwyddyn, ar ôl tynnu cyfraniadau'r aelod ei hun a chynnwys costau gweinyddol. Gelwir hyn yn "*gyfradd sylfaenol*" a chaiff ei mynegi fel canran o dal pensynadwy'r aelodau; yn ogystal ag
- b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol mae angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeirir ato fel y "*gyfradd eilaidd*". Yn gyffredinol, nod talu'r gyfradd Eilaidd fydd sicrhau i'r cyflogwr ddychwelyd i gyllid llawn dros gyfnod priodol (y "*cyfnod amser*"). Gellir mynegi'r gyfradd Eilaidd fel canran y cyflog a/neu fel swm ariannol ym mhob blwyddyn.

Mae cyfraddau pob cyflogwr i'w gweld yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa, sy'n ffurfio rhan o'r Adroddiad Priso Actiwaiaid. Caiff cyfraniadau'r cyflogwyr eu mynegi fel lleiafswm, a bydd cyflogwyr yn medru talu cyfraniadau ar gyfradd uwch. Bydd actwari'r Gronfa yn cyfrif unrhyw gyfraddau uwch yn y prisiadau nesaf, h.y. bydd yn cael ei adlewyrchu fel credyd y tro nesaf caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu cyfrifo.

2.3 Pa fathau o gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa?

Yn hanesyddol, roedd y CPLIL ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol yn unig. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd, yn sgil arallgyfeirio a newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau lleol, mae llawer mwy o gyflogwyr gwahanol bellach yn rhan o'r Gronfa.

Yn y bôn, caiff gweithwyr o'r sector cyhoeddus sy'n darparu rhyw fath o wasanaeth i'r gymuned leol fod yn rhan o'r CPLIL. Er mai gweithwyr awdurdod lleol (a chyn-weithwyr) fydd y mwyafrif o'r aelodau, mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa yn rhai sy'n darparu gwasanaeth yn lle (neu ar y cyd) gwasanaethau awdurdodau lleol: ysgolion academi, contractwyr, cymdeithasau tai, elusennau ac ati.

Mae Rheoliadau CPLIL yn diffinio'r gwahanol fathau o gyflogwyr fel a ganlyn:

Cyrff ar yr atodlen - cynghorau, a chyflogwyr penodol eraill megis ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach. Rhaid i'r rhain adael i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno ag

unrhyw gynllun sector cyhoeddus arall (megis Cynllun yr Athrawon) gael mynediad i'r CPLIL. Gelwir y cyflogwyr yn hyn am eu bod wedi cael eu henwi mewn atodlen yn Rheoliadau CPLIL.

Cyflogwyr sy'n dynodi - gall cyflogwyr megis cynghorau tref a chymuned fod yn rhan o CPLIL drwy benderfyniad (ac ni chaiff y Gronfa wrthod mynediad os yw'r penderfyniad wedi'i gymeradwyo). Gall y cyflogwyr hyn ddynodi pa weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLIL.

Gall cyflogwyr eraill fod yn rhan o'r Gronfa drwy gael cytundeb derbyn, a chyfeirir at y rhain fel 'cyrff a ganiateir'. Fel arfer mae gan y cyflogwyr hyn sydd â "chymuned o ddiddordeb" gyda chyflogwr arall yn y cynllun - **cyrff cymunedol a ganiateir** ("CAB") neu'r sawl sy'n darparu gwasanaeth ar ran cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun - **cyrff trosglwyddo a ganiateir** ("TAB"). Bydd y CABs yn cynnwys cymdeithasau tai ac elusennau, ac yn gyffredinol, contractwyr yw'r TABs. Mae'r Gronfa'n medru gosod meini prawf i bennu a gaiff cyflogwyr fod yn rhan ohoni ai peidio. Gall wrthod gadael iddynt gymryd rhan os nad ydynt yn cyrraedd y gofynion a amlinellir ym mholisi mynediad y Gronfa. (DS Nid yw'r termau CAB a TAB yn cael eu defnyddio mewn Rheoliadau CPLIL diweddar, yn hytrach cyfunir y ddau dan un term, sef 'cyrff a ganiateir'; fodd bynnag, rydym wedi cadw at yr hen dermau fan hyn gan fod hynny'n ddefnyddiol ar gyfer sefydlu strategaethau cyllido ar gyfer y gwahanol gyflogwyr).

2.4 Sut mae'r gyfradd gyfraniadau a fesurir yn amrywio i wahanol gyflogwyr?

Ystyrir pob un o'r tri cham uchod wrth bennu cyfraniadau (rhoddir mwy o fanylion yn Rhan 3 ac Atodiad D).

1. Mae'r **targed cyllido** yn seiliedig ar gyfres o ragdybiaethau am y dyfodol, (e.e. enillion buddsoddi, chwyddiant, disgwyliad oes pensiynwyr). Er hynny, os yw cyflogwr yn dod at ddiwedd ei gyfranogiad yn y Gronfa yna gellid gosod ei darged cyllido ar sail fwy darbodus, fel bod ei ymrwymadau yn llai tebygol o gael eu gwasgaru ymysg cyflogwyr eraill ar ôl iddo derfynu ei gyfranogiad;
2. Y **cyfnod amser** yw'r cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r targed cyllido. Efallai y bydd cyflogwyr yn cael cyfnod amser llai os oes ganddynt aelodaeth ragweladwy lai parhaol neu os nad oes ganddynt bwerau i godi trethi i gynyddu cyfraniadau pe bai enillion ar fuddsoddiadau yn llai na'r disgwyl;
3. Bydd y **tebygolrwydd o gyflawni'r** targed cyllido yn ystod y cyfnod amser hwnnw yn ddibynnol ar farn y Gronfa ar gryfder ymrwymadau cyfreithiol a gallu ariannol y cyflogwr yn ogystal â'i broffil cyllido. Pan ystyrir fod cyflogwr yn wannach, neu o bosib yn rhoi'r gorau i'r Gronfa, yna bydd y tebygolrwydd fydd ei angen yn cael ei osod yn uwch a fydd yn ei dro yn cynyddu'r cyfraniadau sydd eu hangen (ac fel arall).

Rhaid i'r cyflogwr dalu costau unrhyw ymddeoliadau cynnar nad ydynt ar sail salwch, gweler 3.6.

Ceir manylion ar gostau ymddeoliadau cynnar ar sail salwch yn 3.7 a 3.8.

2.5 Sut mae cyfrifo lefel cyllido?

Diffinnir "lefel gyllido" cyflogwr fel cymhareb:

- gwerth cyfran asedau'r cyflogwr ar y farchnad (gweler Atodiad D, Rhan D5 am fwy o fanylion am sut y caiff hyn ei gyfrifo), i'r
- gwerth y mae'r actwari yn ei roi ar y buddion sydd wedi cronni hyd yn hyn ar gyfer gweithwyr a chyn-weithwyr y cyflogwr (yr "ymrwymadau"). Mae actwari'r Gronfa yn cytuno ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio i gyfrifo'r gwerth hwn gyda'r Awdurdod Gweinyddu.

Os yw hyn yn llai na 100% bydd gan y cyflogwr "ddiffyg", a hwn yw diffyg y cyflogwr; os yw'n fwy na 100% yna dywedir fod gan y cyflogwr "warged". Cyfrifir y diffyg neu'r gwarged trwy edrych ar y gwahaniaeth rhwng gwerth yr asedau a gwerth yr ymrwymadau.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond mesuriadau ar un adeg benodol mewn amser yw'r diffyg/gwarged a'r lefel gyllido, a hynny'n seiliedig ar gyfres benodol o ragdybiaethau am y dyfodol. Er ein bod yn cydnabod y bydd gan amrywiol bartïon ddiddordeb yn y mesurau hyn, y prif fater i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yw pa mor debygol yw hi y bydd eu cyfraniadau'n ddigon i dalu am fuddion eu haelodau (ar ôl eu hadio i'w cyfran asedau cyfredol ac enillion buddsoddi disgwylidig).

Yn fyr, mae diffygion a lefelau cyllido yn fesurau byrdymor, ond mae pennu cyfraniadau yn fater mwy hirdymor.

2.6 Sut mae'r Gronfa'n adnabod y gall lefel y cyfraniadau effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth y cyngor a chyflogwyr ac ar y dreth gyngor?

Mae'r Awdurdod Gweinyddu ac actwari'r Gronfa yn ymwybodol iawn, os yw popeth arall yn hafal, y bydd gorfod talu cyfraniad uwch i'r Gronfa yn golygu fod llai o arian ar gael i'r cyflogwr ei wario ar ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft:

- Gall cyfraniadau uwch i'r Gronfa Bensiwn arwain at lefelau is o wariant gan y cyngor, a gall hynny yn ei dro effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau'r cyngor, a/neu roi mwy o bwysau ar lefelau'r dreth gyngor;
- Bydd cyflogwyr eraill yn darparu gwahanol wasanaethau i'r gymuned leol, efallai trwy gymdeithasau tai, gwaith elusennol neu drwy contractio gwasanaethau'r cyngor. Os oes angen iddynt dalu mwy o gyfraniadau pensiwn i'r CPLIL gall hyn effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau lleol am gost resymol.

Er bod hyn i gyd yn wir, dylid cadw mewn cof hefyd:

- Mae'r Gronfa'n cynnig sicrwydd ariannol amhrisiadwy i deuluoedd lleol, boed hynny i'r sawl sydd wedi gweithio yn y gorffennol i wasanaethu eu cymuned leol a bellach wedi ymddeol, neu i'w teuluoedd ar ôl iddynt farw;
- Rhaid i'r Gronfa gael yr asedau i allu talu am y buddion ymddeol a marwolaeth sydd yn ei dro'n golygu fod yn rhaid i bob un o'r gwahanol gyflogwyr dalu drostynt eu hunain. Bydd talu cyfraniadau is heddiw yn golygu fod yn rhaid talu mwy fory: nid yw gohirio talu yn newid cyfanswm ymrwymiad y cyflogwr i'r Gronfa o ran ei weithwyr a'i gyn-weithwyr.
- Yn gyffredinol, bydd pob cyflogwr ond yn talu am ei weithwyr a'i gyn-weithwyr (a'u dibynyddion) ei hun, ac nid am rai cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r Gronfa;

- Ymdrecha'r Gronfa i gynnal cyfraddau cyfraniadau cyflogwr gweddol sefydlog pan fo hynny'n briodol ac yn bosib. Fodd bynnag, mae symudiad diweddar yn yr hun a gaiff ei reoleiddio yn golygu fod y Llywodraeth yn blaenoriaethu diddyledrwydd o fewn pob cenhedlaeth dros sefydlogrwydd y cyfraddau cyfraniadau;
- Dymuna'r Gronfa osgoi sefyllfa lle mae cyflogwr ar ei hôl hi gymaint wrth reoli ei ddiffyg cyllido nes nad oes modd ei reoli: gall sefyllfa o'r fath wneud y cyflogwr yn fethdalwr a byddai'n rhaid i gyflogwyr eraill y Gronfa fod yn gyfrifol am y diffyg. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai gwasanaethau'r cyflogwyr hynny'n dioddef o ganlyniad;
- Dylai bod lefel cyfraniadau'r cyngor i'r Gronfa yn un addas er mwyn gwarchod buddiannau'r gwahanol genedlaethau o drethdalwyr. Er enghraifft, bydd angen gwneud yn iawn am fethiant i dalu digon o gyfraniadau yn rhai blynyddoedd drwy dalu gormod mewn blynyddoedd eraill; bydd y cyngor yn dymuno lleihau cymaint â phosib y graddau y bydd trethdalwyr yn elwa ar draul rhai sy'n talu ar adeg wahanol.

Drwyddi draw, mae'n amlwg fod angen taro cydbwysedd rhwng yr angen i'r Gronfa gynnal lefelau cyllido darbodus ac angen y cyflogwyr i ddyrannu eu hadnoddau'n briodol. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy ddefnyddio amrywiol dechnegau sy'n effeithio ar gynnydd y cyfraniadau i wahanol raddau (gweler [3.1](#)). Wrth benderfynu pa dechneg i'w defnyddio ar gyfer cyflogwyr, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n edrych ar sefyllfa ariannol y cyflogwr, h.y. ei allu i ddiwallu ei ymrwymadau ariannu a'r cyfnod amser perthnasol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried asesiad risg o'r cyflogwr gan ddefnyddio sail wybodaeth sy'n cael ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd. Bydd y gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth megis y math o gyflogwr, ei broffil aelodaeth a'i sefyllfa gyllido, unrhyw warantwyr neu ddarpariaeth ernes, newidiadau perthnasol a ragwelir ac ati.

Er enghraifft, pan fo Awdurdod Gweinyddu'n weddol hyderus y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymadau cyllido, bydd y Gronfa'n caniatáu dewisiadau megis sefydlogi ([gweler 3.3 Nodyn \(b\)](#)), cyfnod amser hwy o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd is o gyrraedd eu targed cyllido. Bydd dewisiadau o'r fath yn arwain at lefelau cyfraniadau is na'r arfer yn y tymor byr. Caiff hyn ei ganiatáu oherwydd y disgwylir y bydd y cyflogwr yn parhau i allu cyflawni ei rwymedigaethau am nifer o flynyddoedd.

Ar y llaw arall, os oes amheuaeth y bydd cyflogwr yn medru cyflawni ei ymrwymadau cyllido neu wrthsefyll newid sylweddol yn ei ymrwymadau, efallai y bydd angen targed cyllido uwch, a/neu gyfnod byrrach i adfer y diffyg o gymharu â chyflogwyr eraill, a/neu debygolrwydd uwch o gyrraedd y targed.

Mae'r Gronfa'n mynd ati i ofyn am fewnbwn gan gyflogwyr, gan gynnwys mewnbwn i'w drefniadau cyllido, a hynny drwy amrywiol ffyrdd: gweler [Atodiad A](#).

2.7. Pa ddull mae'r Gronfa wedi'i gymryd i ddelio ag ansicrwydd sy'n deillio o achos llys McCloud a'i effaith bosibl ar strwythur buddion CPLIL?

Mae strwythur buddion LGPS o 1 Ebrill 2014 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn i'r Llywodraeth gollir hawl i apelio yn erbyn McCloud ac achosion llys tebyg eraill. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod yr 'amddiffyniadau trosiannol' a ddyfarnwyd i rai aelodau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus pan ddiwygiwyd y cynlluniau (ar 1 Ebrill 2014 yn achos yr CPLIL) yn anghyfreithlon ar sail gwahaniaethu ar sail oedran. Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi darparu unrhyw fanylion am

newidiadau o ganlyniad i'r achos. Fodd bynnag, disgwylir y bydd angen newidiadau i fudd-daliadau a byddant yn debygol o gynyddu gwerth rhwymedigaethau. Ar hyn o bryd, nid yw graddfa a natur unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau yn hysbys, sy'n cyfyngu ar allu'r Gronfa i roi lwfans cywir.

Cyhoeddodd Bwrdd Cynghori Cynllun CPLIL (SAB) gyngor i gronfeydd CPLIL ym mis Mai 2019. Gan nad oedd canlyniad terfynol i achos McCloud erbyn 31 Awst 2019, mae Actiwari'r Gronfa wedi gweithredu yn unol â chyngor SAB ac wedi prisio holl fuddion aelodau yn unol â y Rheoliadau CPLIL cyfredol.

Mae'r Gronfa, yn unol â'r cyngor gan SAB, wedi ystyried sut i ganiatáu ar gyfer y risg yma wrth bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gan fod y newidiadau sy'n deillio o ddyfarniad McCloud yn ansicr, mae'r Gronfa wedi dewis rhoi lwfans bras trwy gynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant angenrheidiol ar gyfer cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob cyflogwr.

Unwaith y bydd canlyniad achos McCloud yn hysbys, gall y Gronfa ailedrych ar y cyfraddau cyfrannu a osodwyd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Mae'r Gronfa hefyd wedi ystyried dyfarniad McCloud yn ei dull o brisio rhoi'r gorau iddi. Gweler nodyn (j) i dabl 3.3 i gael mwy o wybodaeth.

2.8 Pa gamau mae'r Gronfa wedi cymeryd i ddelio gyda'r ansicrwydd o achos llys Goodwin ai effaith posib ar strwythur buddion CPLIL?

Wnaeth achos Goodwin godi o fewn cynllun Athrawon. Honnwyd y gwahaniaethwyd yn erbyn aelodau, neu eu goroeswyr oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Roedd yr honiad oherwydd bod cynllun yr athrawon yn darparu pensiwn goroeswr sy'n llai ffafriol i wŷr gweddw neu bartner gwrywaidd sydd wedi goroesi, nag ar gyfer gwraig weddw neu bartner benywaidd sydd wedi goroesi aelod benywaidd o'r cynllun. Ar 20 Mehefin 2020, canfu'r Tribiwnlys o blaid yr hawlydd a chytunodd fod gwahaniaethu. Disgwylir i'r canfyddiad a datrysiaid hwn fod yn berthnasol ar draws pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, ond nid yw hyn yn sicr ac nid yw'r manylion yn hysbys eto.

Disgwylit i effaith achos Goodwin, os o gwbl ar ymrwymadau'r Gronfa fod yn fach iawn a bydd yn fater gweinyddol i raddau helaeth. Yn absenoldeb penderfyniad neu unrhyw ganllaw i'r achos hwn, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer hwn o fewn prisiad ffurfiol 2019.

2.9 Pryd fydd y prisiad actiwaraidd nesaf?

Ar 8 Mai 2019 cyhoeddodd MHCLG ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion (ymhlith pethau eraill) i ddiwygio cylch prisio CPLIL yng Nghymru a Lloegr o gylch prisio tair blynedd i gylch prisio pedair blynedd.

Ar 7 Hydref 2019 cadarnhaodd MHCLG mai cylch prisio nesaf CPLIL yng Nghymru a Lloegr fydd 31 Mawrth 2022, waeth beth fo'r ymgynghoriad parhaus. Felly cyfarwyddodd y Gronfa i Actiwari'r Gronfa ardystio cyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2023 fel rhan o brisiad 2019 y Gronfa.

3. Cyfrifo cyfraniadau ar gyfer Cyflogwyr unigol

3.1 Sylwadau cyffredinol

Un o brif heriau'r Awdurdod Gweinyddu yw cydbwysu'r angen am gyfraniadau cyflogwr sefydlog a fforddiadwy gyda'r angen i gadw golwg darbodus ar gyllido yn yr hirdymor a sicrhau diddyledrwydd y Gronfa. Gyda hyn mewn golwg, mae proses tri cham y Gronfa'n adnabod y prif faterion:

1. Beth yw targed darbodus (ond nid yn ormodol) priodol?
2. Faint o amser ddylai'r cyflogwr ei gael i gyrraedd y targed? Dylai hyn fod yn realistig ond nid yn rhy hir neu bydd perygl na fydd y cyflogwr yn cyrraedd y targed cyllido o gwbl.
3. Pa debygolrwydd sydd ei angen i gyrraedd y targed cyllido? Bydd hyn bob amser yn llai na 100% am nad oes modd bod yn sicr o symudiadau'r farchnad yn y dyfodol. Gellir defnyddio "bariau" tebygolrwydd uwch ar gyfer cyflogwyr os yw'r Gronfa'n dymuno gostwng y risg y bydd y cyflogwr yn rhoi'r gorau iddi ac yn gadael diffyg i'r cyflogwyr eraill dalu amdano.

Sonnir am y materion hyn a rhai eraill perthnasol yn y Rhan hon.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cydnabod y bydd weithiau amgylchiadau penodol yn effeithio ar gyflogwyr unigol nad ydynt yn hawdd i'w rheoli o fewn y rheolau a'r polisiau a amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido. Felly, gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu, ar ei ddisgresiwn ei hun, rhoi cyfarwyddyd i'r actwari ddefnyddio dulliau cyllido gwahanol ar sail bob achos unigol ar gyfer cyflogwyr penodol.

3.2 Effaith talu cyfraniadau is

Mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol, gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu cyflogwyr i dalu eu cyfraniadau ar lefel is na'r hyn a asesir ar eu cyfer gan ddefnyddio'r broses tri cham uchod. Yn ei ddisgresiwn llwyr, gall yr Awdurdod Gweinyddu:

- ymestyn y cyfnod amser ar gyfer targedu cyllido'n llawn;
- addasu'r tebygolrwydd gofynnol o gyrraedd y targed cyllido;
- caniatáu i gyflogwr fod yn rhan o fecanweithiau sefydlogi'r Gronfa;
- caniatáu ymestyn y cyfnod ar gyfer codi neu ostwng cyfraniadau'n raddol;
- cyfuno cyfraniadau rhwng cyflogwyr sydd â nodweddion tebyg; a
- derbyn rhyw fath o ernes neu warant yn lle talu cyfradd gyfraniadau uwch.

Yn aml, bydd cyflogwyr sy'n cael caniatâd i ddefnyddio un neu fwy o'r dulliau uchod yn talu cyfraniad, am gyfnod, sy'n is na'r hyn sydd ei angen i gyrraedd ei darged cyllido yn ystod y cyfnod amser priodol gyda'r tebygolrwydd llwyddiant gofynnol. Dylai cyflogwyr o'r fath werthfawrogi:

- nid yw cyflymder talu'r cyfraniadau'n effeithio ar eu gwir ymrwymiad yn yr hirdymor (h.y. gwir gost y buddion sy'n daladwy i'w gweithwyr a'u cyn-weithwyr yn y pendraw);
- rhagdybir y bydd talu cyfraniadau is yn y tymor byr yn arwain at llai o enillion buddsoddi yn y dyfodol ar gyfran y cyflogwr o'r asedau. Felly, gall gohirio swm penodol o gyfraniad arwain at gyfraniadau uwch yn yr hirdymor: ac

- fe all gymryd fwy o amser i gyrraedd eu targed cyllido, os yw popeth arall yn gyfartal.

Ar y dudalen nesaf (3.3) ceir crynodeb o sut mae'r prif bolisiau cyllido yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o gyflogwyr, gyda nodiadau manylach i ddilyn pan fo angen.

Mae Rhan 3.4 yn ymdrin ag amrywiol faterion cyllido eraill sy'n berthnasol i bob cyflogwr.

3.3 Y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwahanol gyflogwyr

Math o gyflogwr	Cyrff ar yr Atodlen		Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi		Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir*
Is-fath	Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri	Pob Corff Arall ar yr Atodlen (Cynghorau Tref a Phlwyf)	Agored i ddechreuwr newydd	Wedi cau i ddechreuwr newydd	(pawb)
Sail Targed Cyllido a ddefnyddiwyd	Parhaus, honnir cyfranogiad hirdymor yn y Gronfa (gweler <u>Atodiad E</u>)		Parhaus, ond gall symud i 'sail giltiau' - gweler <u>Nodyn (a)</u>		Parhaus, honnir cyfnod contract penodol yn y Gronfa (gweler <u>Atodiad E</u>)
Dull prif gyfradd	(gweler <u>Atodiad D - D.2</u>)				
Cyfradd cyfrannu sefydlog?	Oes - gweler <u>Nodyn (b)</u>	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes
Uchafswm cyfnod amser - <u>Nodyn (c)</u>	17 mlynedd	17 mlynedd	14 mlynedd	Oes gwaith yn y dyfodol	Cyfnod contract heb ei gwblhau
Cyfradd eilaidd - <u>Nodyn (d)</u>	Canran y cyflog				
Ymdrin â gwarged	Ymdrin drwy drefniant sefydlogi	Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol	Lleihau cyfraniadau drwy gyfradd eilaidd negyddol		Lleihau cyfraniadau drwy wasgaru'r gwarged dros gyfnod y contract sy'n weddill
Tebygolrwydd o gyflawni'r targed - <u>Nodyn (e)</u>	70%	75%	75%	75%	75%
Camau cyfraniadau gwahanol**	Bydd gostyngiadau yn berthnasol yn llawn o 2020/21. Bydd cynnydd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros 3 blynedd				
Adolygu cyfraddau - <u>Nodyn (f)</u>	Bydd adolygu cyfraddau yn digwydd yn unol a'r Rheoliadau sydd wedi eu gosod yn Nodyn (f)				Wedi'u hadolygu'n benodol yn nhair blynedd diwethaf y contract
Cyflogwr newydd	amh.	amh.	<u>Nodyn (g)</u>		<u>Nodiadau (g) a (h)</u>
Darfod cymryd rhan: dyled darfyddiad yn daladwy	Honnir nad yw darfyddiad yn bosib yn gyffredinol, oherwydd bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyrrff ar yr Atodlen i gymryd rhan yn CPLIL. Mewn achosion prin pan fydd darfyddiad yn digwydd (oherwydd newidiadau ym mheirianwaith y Llywodraeth er enghraifft), bydd yr egwyddorion dyled darfyddiad a ddefnyddir yn unol â <u>Nodyn (i)</u> .		Gellir ei ddarfod yn amodol ar delerau cytundeb derbyn. Cyfrifir dyled darfyddiad ar sail sy'n briodol i amgylchiadau'r darfyddiad - gweler <u>Nodyn (i)</u> .		Tybir y bydd y cyfranogiad yn dod i ben ar ddiwedd y contract. Bydd dyled / credyd rhoi'r gorau iddi wedi'i gyfrifo ar sail ymadael y contractwr, oni bai bod y cytundeb derbyn yn cael ei derfynu'n gynnar gan y contractwr, ac os felly byddai'r sail ymadael risg isel yn

			berthnasol. Mae cyflogwr gosod yn atebol am ddiffygion a chyfraniadau yn y dyfodol.
--	--	--	---

* Pan fydd yr Awdurdod Gweinyddol yn cydnabod cytundeb cyfradd cyfraniadau sefydlog rhwng awdurdod gosod a chontractwr, bydd cyfradd cyfraniadau ardstyedig y cyflogwr yn deillio yn unol â'r fethodoleg a bennir yn y cytundeb rhannu risg. Yn ogystal, yn yr achosion hyn, ar ôl i'r asedau ddod i ben, bydd asedau a rhwymedigaethau'r contractwr yn trosglwyddo yn ôl i'r cyflogwr gosod heb grisialu unrhyw ddiffyg na gwaged. Nodir mwy o fanylion am gytundebau cyfradd cyfraniadau sefydlog yn nodyn (i).

**Mae newidiadau i gyfraddau cyfrannu ar gyfer y cyflogwyr agored nad ydynt yn sefydlog (ac eithrio Cyrff Derbyn Trosglwyddai) yn destun mecanwaith graddol. Mae hyn yn gweithio trwy gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyfraddau yn 2016 a 2019 cyn defnyddio'r mecanwaith, ac yna cyfyngu'r cynnydd neu'r gostyngiad dilynol fel a ganlyn: a) os yw'r gwahaniaeth yn 5.0% neu lai o dâl, bydd y gyfradd yn newid yn llawn gwahaniaeth, neu b) os yw'r gwahaniaeth yn fwy na 5.0% o'r cyflog, yna bydd y gyfradd yn newid 5.0% ynghyd â hanner y gwahaniaeth uwchlaw 5.0%. Mae'r cyfraddau cyfrannu ar gyfer cyflogwyr sydd ar gau i newydd-ddyfodiaid, ac sy'n mynd tuag at roi'r gorau iddi, wedi'u gosod yn hafal i gyfraddau sylfaenol y cyflogwyr.

Nodyn (a) (Sail allanfa giltiau ar gyfer Cyrff Cymunedol a Ganiateir (CABs) a Chyflogwyr sy'n Dynodi wedi cau i ddechreuwr newydd)

Mewn amgylchiadau:

- pan fo'r cyflogwr yn Gyflogwr sy'n Dynodi, neu'n Gorff a Ganiateir ond nid yn Gorff Trosglwyddo a Ganiateir, a
- phan nad oes gan y cyflogwr warantwr, a
- phan fydd y cytundeb derbyn yn debygol o ddod i ben, neu phan fydd y cyflogwr yn debygol o golli'i aelod gweithredol olaf, o fewn amserlen a ystyrir yn briodol gan yr Awdurdod Gweinyddu i arwain at newid mewn cyllido,

gallai'r Awdurdod Gweinyddu osod targed cyllido uwch (e.e. defnyddio cyfradd a osodir yn gyfartal â chynnyrch giltiau tymor hir) erbyn yr amser fydd y cytundeb yn dod i ben neu phan fydd yr aelod gweithredol olaf yn gadael, er mwyn diogelu cyflogwyr eraill yn y Gronfa. Bydd y polisi hwn yn cynyddu cyfraniadau rheolaidd ac yn lleihau'r posibilrwydd, ond ddim yn cael gwared ar y posibilrwydd yn gyfan gwbl, y bydd angen taliad diffyg terfynol gan y cyflogwr pan ymgymerir â phrisiad darfyddiad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cadw'r hawl i fabwysiadu'r dull uchod mewn perthynas â'r Cyflogwyr sy'n Dynodi a'r Cyrff a Ganiateir sydd heb warantwr, pan ystyrir bod cryfder y cyfamod yn wan ond na cheir disgwyliad uniongyrchol y bydd y cytundeb derbyn yn darford neu'r Cyflogwr sy'n Dynodi yn newid ei ddynodiad.

Nodyn (b) (Sefydlogi)

Mae sefydlogi yn fecanwaith lle cedwir amrywiadau cyfradd cyfraniadau cyflogwr o flwyddyn i flwyddyn o fewn ystod a bennwyd o flaen llaw, gan felly ganiatáu i gyfraddau'r cyflogwyr hynny fod yn gymharol sefydlog. Er budd sefydlogrwydd a fforddiadwyedd cyfraniadau cyflogwr, credai'r Awdurdod Gweinyddu, ar ôl cyngor gan Actwari'r Gronfa, y gellir ystyried sefydlogi cyfraniadau fel dull darbodus hirdymor o hyd. Fodd bynnag, dylai cyflogwyr sydd â chyfraddau cyfraniadau wedi'u 'sefydlogi' (ac felly, allai fod yn talu llai na'u cyfraddau cyfraniadau damcaniaethol) fod yn ymwybodol o risgiau'r dull hwn a dylent ystyried gwneud taliadau ychwanegol i'r Gronfa os yn bosib.

Mae'r mecanwaith sefydlogi hwn yn caniatáu i anweddolrwydd marchnad fuddsoddi fyrdymor gael ei reoli fel nad yw'n achosi anweddolrwydd mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwr, ar y sail y gellir llunio gweledigaeth hirdymor ar y mewnlif o arian net, enillion ar fuddsoddiadau a chryfder cyfamod y cyflogwr.

Mae'r mecanwaith sefydlogi presennol yn berthnasol os:

- yw'r cyflogwr yn diwallu meini prawf cymhwyster a osodir gan yr Awdurdod Gweinyddu (gweler isod) ac;
- os na cheir unrhyw ddigwyddiadau materol sy'n arwain at y cyflogwr yn dod yn anghymwys, e.e. gostyngiadau sylweddol mewn aelodaeth weithredol (oherwydd allanoli neu ddiswyddiadau), neu newidiadau yn natur y cyflogwr (oherwydd ailstrwythuro gan y Llywodraeth efallai), neu newidiadau yn sicrwydd y cyflogwr.

Ar sail gwaith modelu helaeth a gynhaliwyd ar gyfer ymarfer prisiad 2019 (gweler Adran 4), cytunwyd bod yn rhaid i bob cyflogwr sefydlog dalu ei gyfradd sylfaenol fel isafswm dros y tair blynedd nesaf, gyda'r gostyngiad yng nghyfanswm y gyfradd yn ddarostyngedig i derfyn yn ddibynol ar lefel ariannu 2019 (hy terfyn o 1.0% o'r cyflog os yw rhwng 100% a 104%, 1.5% o'r cyflog os yw rhwng 105% a 119%, a 2.0% o'r cyflog os yw'n 120% neu'n uwch). Mae'r manylion sefydlogi wedi hynny fel a ganlyn:

Math gyflogwr	o	Cyngorau, yr Heddlu a Pharc Cenedlaethol Eryri
Uchafswm cynnydd cyfraniadau		1% o dâl
Uchafswm lleihad cyfraniadau		1% o dâl

Bydd y meini prawf sefydlogi a chyfyngiadau'n cael eu hadolygu yn y prisiad swyddogol nesaf. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cadw'r hawl i adolygu meini prawf a chyfyngiadau sefydlogi ar unrhyw bryd cyn hynny, ar sail aelodaeth a/neu newidiadau cyflogwr fel y disgrifir uchod.

Nodyn (c) (Uchafswm cyfnod amser)

Mae'r uchafswm cyfnod amser yn cychwyn ar ddechrau'r gyfradd cyfrannu ddiwygiedig (1 Ebrill 2020 ar gyfer prisiad 2019). Fel arfer, byddai'r Awdurdod Gweinyddu yn disgwyl i'r un cyfnod gael ei ddefnyddio mewn prisiadau dilynol bob tair blynedd, ond byddai'n cadw'r hawl i gynnig cyfnodau amser gwahanol, pan nad oes unrhyw ddechreuwy'r newydd er enghraifft.

Nodyn (d) (Cyfradd eilaidd)

Bydd y gyfradd eilaidd yn cael ei gosod fel canran o'r cyflog ar gyfer pob cyflogwr.

Nodyn (e) (Tebygolrwydd o gyflawni'r targed cyllido)

Mae targed cyllido'n cael ei gyfrifo i bob cyflogwr, ynghyd â chyfnod amser perthnasol ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw. Gosodir y cyfraniadau, wedi'u cyfuno gyda chyfran asedau presennol y cyflogwr a symudiadau disgwylidig y farchnad dros y cyfnod amser, fel bod y targed cyllido'n cael ei gyflawni gydag isafswm tebygolrwydd penodol. Bydd cyfnod tebygolrwydd uwch gofynnol yn arwain at gyfraniadau gofynnol uwch, ac fel arall.

Mae'r modd y gosodir cyfraniadau drwy ddefnyddio'r tri cham hyn, a rhagolygon economaidd perthnasol, yn cael ei ddisgrifio mewn mwy o fanylder yn Atodiad D.

Gosodir gwahanol debygolrwydd ar gyfer gwahanol gyflogwyr yn dibynnu ar eu natur a'u hamgylchiadau: yn fras, bydd tebygolrwydd uwch yn berthnasol oherwydd un neu fwy o'r hyn a ganlyn:

- cred y Gronfa bod y cyflogwr yn peri risg cyllido mwy na chyflogwyr eraill,
- nid oes gan y cyflogwr bwerau codi trethi;

- nid oes gan y cyflogwr warantwr na sicrwydd digonol arall i gefnogi'i sefyllfa cyllido; ac/neu
- mae'r cyflogwr yn debygol o ddarfod cymryd rhan yn y Gronfa yn y tymor hir neu ganolig.

Nodyn (f) (Adolygiadau Rheolaidd)

O dan y rheoliadau mae'r Gronfa yn gallu newid cyfradd cyfraniadau rhwng prisiadau ar gyfer 'newid sylweddol' yn yr ymrwymadau neu gyfamod y cyflogwr; gall hyn gynyddu neu leihau'r cyfraniadau yn sylweddol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r Gronfa yn gallu dilyn yr amgylchiadau yma fel sbardun posib ar gyfer adolygiad:

- ym marn yr Awdurdod Gweinyddol mae amgylchiadau sydd yn gwneud hi'n debygol bod cyflogwr (yn cynnwys cyrff a ganiateir) am adael y cynllun yn gynt na ragwelwyd yn y prisiad diwethaf;
- bod cyflogwr yn gadael y Gronfa o fewn y ddwy flynedd nesaf a cyn cwblhau'r prisiad nesaf;
- bod cyflogwr yn cytuno i dalu cyfraniadau uwch i gwrdd â chostau'r pensiwn ychwanegol, o dan Reol 31 (3) o'r rheoliadau.
- mae newidiadau yn y strwythur buddion yn Rheoliadau CPLIL yn cynnwys canlyniadau achos McCloud a mecanwaith rhannu cost (os caniateir can y rheoliadau ar yr amser yna) sydd heb ei gyfrifo amdanynt yn y prisiad diwethaf;
- mae'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddol bod swm yr ymrwymadau sydd yn codi neu yn debygol o godi ar gyfer cyflogwr neu gyflogwyr wedi newid yn sylweddol ers y prisiad diwethaf;
- mae'n ymddangos yn debygol i'r Awdurdod Gweinyddol bod newid sylweddol yng ngallu'r cyflogwr a chyflogwyr i gwrdd â'i ymrwymadau (h.y. newid sylweddol yng nghyfamod y cyflogwr);
- mae'n ymddangos i'r Awdurdod Gweinyddol bod aelodaeth y cyflogwr wedi newid yn sylweddol oherwydd digwyddiadau megis trosglwyddiad swmp, lleihad sylweddol yn y gyflogres, neu ail strwythuro mawr; neu
- ble mae cyflogwr wedi methu i dalu cyfraniadau neu heb drefnu diogelwch priodol yn ôl yr angen gan yr Awdurdod Gweinyddol.

Mi wneith yr Awdurdod Gweinyddol hefyd ystyried cais gan unrhyw gyflogwr i adolygu cyfraniadau ble mae'r cyflogwr wedi ymgymryd i gwrdd â chostau'r adolygiad yma a gosod allan y rhesymeg am yr adolygiad (ble bydd disgwyliad i ddisgyn i un o'r categorïau uwchben, megis y cred bod y cyfamod wedi newid yn sylweddol neu ail strwythuro mawr sydd yn gallu effeithio'r aelodaeth).

Oni bai mewn amgylchiadau ble mae cyflogwr yn agos i orffen, ni wnaeth yr Awdurdod Gweinyddol gysidro anwaldrwydd y farchnad na newid mewn gwerth asedau fel sail i newid mewn cyfraniadau tu allan i brisiad swyddogol.

Mae'r penderfyniad i newid cyfraddau cyfraniadau cyflogwr i'w wneud gan yr Awdurdod Gweinyddol yn dilyn ymgynghoriad gyda actiwari'r Gronfa. Bydd y tystysgrif 'Rates & Adjustments' yn cael ei ddiweddarau fel yn briodol yn dilyn adolygiad or fath.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddol hefyd yn ystyried arweiniad ar rhai materion gan y Scheme Advisory Board o bryd i'w gilydd.

Nodyn (g) (Cyrff Newydd a Ganiateir)

O 1 Hydref 2012 ymlaen, cyflwynodd Rheoliadau Amrywiol 2012 CPLIL ofynion gorfodol newydd ar gyfer pob Corff a Ganiateir fyddai'n ymuno â'r Gronfa o'r dyddiad hwnnw. Dan y Rheoliadau hyn, bydd angen i bob Corff newydd a Ganiateir ddarparu rhyw fath o sicrwydd, megis gwarant gan y cyflogwr sy'n gosod, indemniad neu fond. Mae angen y sicrwydd i ymdrin â rhai neu bob un o'r isod:

- cost straen unrhyw ddiswyddiadau/ymddeoliadau cynnar sy'n deillio o derfynu'r contract yn rhy gynnar;
- lwfans ar gyfer y risg o ased yn tanberfformio;
- lwfans ar gyfer y risg o gwypm mewn enillion giltiau;
- lwfans ar gyfer y posibilrwydd o gyfraniadau cyflogwr ac aelod ddim yn cael eu talu i'r Gronfa; a/neu'r
- diffyg presennol.

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir: Ar gyfer pob Corff Trosglwyddo a Ganiateir (TABs), rhaid i'r sicrwydd fodloni'r Awdurdod Gweinyddu yn ogystal â'r cyflogwr sy'n gosod, a bydd yn cael ei ail-asesu bob blwyddyn. Gweler hefyd Nodyn (i) isod.

Cyrff Cymunedol a Ganiateir: Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ystyried ceisiadau gan CABs (neu gyrff tebyg eraill, megis partneriaethau GIG adran 75) i ymuno â'r Gronfa dim ond os ydynt wedi'u noddi gan Gorff ar yr Atodlen gyda phwerau codi trethi, sy'n gwarantu eu rhwymedigaethau a hefyd yn darparu rhyw fath o sicrwydd fel yr uchod.

Mae'r dulliau uchod yn lleihau'r risg, i gyflogwyr eraill yn y Gronfa, o orfod ymdrin ag unrhyw ddiffyg ariannol posib o ran Cyrff a Ganiateir yn dar fod gyda diffyg heb ei dalu.

Nodyn (h) (Cyrff Trosglwyddo Newydd a Ganiateir)

Fel arfer mae TAB newydd yn ymuno â'r Gronfa o ganlyniad i rai gwasanaethau gan gyflogwr presennol (Corff ar yr Atodlen fel arfer megis cyngor neu academi) yn gosod/allanoli i sefydliad arall ('contractwr'). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad TUPE rhai staff o'r cyflogwr sy'n gosod i'r contractwr. O ganlyniad, ar gyfer parhad y contract, mae'r contractwr yn gyflogwr newydd sy'n cymryd rhan yn y Gronfa fel bod y gweithwyr sy'n trosglwyddo yn cadw eu cymhwysedd am aelodaeth CPLIL. Ar ddiwedd y contract, mae gweithwyr yn dychwelyd at y cyflogwr sy'n gosod neu at gcontractwr arall.

Fel arfer, byddai'r TAB yn cael ei osod yn y Gronfa fel cyflogwr newydd gyda chyfrifoldeb am holl fuddion cronus y gweithwyr sy'n trosglwyddo; yn yr achos hwn, fel arfer byddai'r contractwr yn derbyn dyraniad asedau cychwynol cyfwerth â gwerth rhwymedigaethau buddion Cronfa'r gweithwyr o'u gwasanaeth yn y gorffennol. Y *quid pro quo* yw bod disgwyl i'r contractwr wedyn sicrhau bod ei ran ef o'r Gronfa hefyd wedi'i chyllido'n llawn ar ddiwedd y contract: gweler Nodyn (i).

Mae gan gyflogwyr sy'n 'allanoli' hyblygrwydd yn y modd maent yn gallu ymdrin â'r posibilrwydd o'r contractwr yn ymgymryd â'r risg pensiwn. Yn benodol, ceir tri gwahanol lwybr y bydd cyflogwyr o'r fath yn dymuno eu mabwysiadu efallai. Yn amlwg, oherwydd bod y risg yn disgyn ar y cyflogwr sy'n gosod y contract yn y pen draw, hwy ddylai gytuno ar y llwybr priodol gyda'r contractwr.

i) Cydrannu

Dan yr opsiwn hwn, caiff y contractwr ei gydrannu gyda'r cyflogwr sy'n gosod. Yn yr achos hwn, mae'r contractwr yn talu'r un gyfradd â'r cyflogwr sy'n gosod, allai gael ei wneud dan ddull sefydlogi.

ii) Cyflogwr sy'n gosod yn cadw risgiau cyn-contract

Dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyflogwr sy'n gosod yn cadw cyfrifoldeb am asedau a rhwymedigaethau o ran y gwasanaeth a gronnir cyn dyddiad cychwyn y contract. Byddai'r contractwr yn gyfrifol am ymrwymadau yn y dyfodol sy'n cronni o ran staff a drosglwyddwyd. Gallai cyfradd cyfrannu'r contractwr amrywio o un prisiad i'r llall. Byddai'n atebol am unrhyw ddiffyg ar ddiwedd cyfnod y contract o ran asedau ac ymrwymadau sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth a gronnir yn ystod cyfnod y contract. Dylid nodi, mae lefel y credyd ymadael (os o gwbl) sydd angen ei dalu ar y diwedd wedi ei benderfynu gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol a'r rheoliadau ac y DSC yma.

iii) Cyfradd cyfrannu sefydlog wedi'i chytuno

O dan yr opsiwn hwn, mae'r contractwr yn talu cyfradd cyfrannu sefydlog trwy gydol ei gyfranogiad yn y Gronfa ac nid yw'n talu unrhyw ddiffyg nac yn derbyn credyd ymadael. Hynny yw, mae'r risgiau pensiwn yn "pasio drwodd" i'r cyflogwr gosod.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn barod i weinyddu unrhyw un o'r opsiynau uchod cyhyd â bod y dull wedi'i gofnodi yn y Cytundeb Derbyn yn ogystal â'r cytundeb trosglwyddo. Fel arall, gall gadael i gyflogwyr a Chyrff Derbyn Trosglwyddwyr weithredu unrhyw un o'r opsiynau uchod trwy ymrwymo i Gytundeb Ochr ar wahân. Ni fyddai'r Awdurdod

Gweinyddu o reidrwydd yn barti i'r cytundeb ochr hwn, ond gall drin y Cytundeb Derbyn fel pe bai'n ymgorffori'r telerau cytundeb ochr lle caniateir hyn gan ddeddfwriaeth neu fel arall yn cael ei gytuno gan bob parti.

Dylai unrhyw gytundeb rhannu risg sicrhau bod rhyw elfen o drosglwyddiadau risg i'r contractwr lle mae'n ymwneud â'u penderfyniadau ac mae'n annheg rhoi baich ar y cyflogwr sy'n gadael gyda'r risg honno. Er enghraifft, dylai'r contractwr fod yn gyfrifol fel rheol am gostau pensiwn sy'n codi o:

- codiadau cyflog uwch na'r cyffredin, gan gynnwys yr effaith mewn perthynas â gwasanaeth cyn i'r contract gychwyn hyd yn oed os yw'r cyflogwr gosod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am yr olaf o dan (ii) uchod; a
- penderfyniadau diswyddo ac ymddeol yn gynnar.

Nodyn (i) (Corff a Ganiateir yn Gadael y Gronfa)

Er gwaethaf darpariaethau'r Cytundeb Derbyn, gallai'r Awdurdod Gweinyddu ystyried unrhyw un o'r isod fel sbardunau ar gyfer darford cytundeb derbyn gydag unrhyw fath o gorff:

- Yr aelod gweithredol olaf yn darford cymryd rhan yn y Gronfa (DS golyga newidiadau diweddar yn Rheoliadau CPLIL bod gan yr Awdurdod Gweinyddu ddisgresiwn i oedi cymryd camau gweithredu am hyd at dair blynedd, felly os yw'r cyflogwr yn derbyn un neu fwy o aelodau gweithredol yn y Gronfa yn ystod y cyfnod hwnnw, yna ni sbardunir darfyddiad. Yn ôl polisi presennol y Gronfa, gadewir hwn fel disgresiwn ac efallai y bydd yn berthnasol neu'n amherthnasol mewn unrhyw achos penodol);
- Y Corff a Ganiateir yn fethdaliadol, yn dirwyn i ben neu'n diddymu;
- Unrhyw achos o dor-amod gan y Corff a Ganiateir o ran unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb y maent wedi methu eu cywiro i fodlonrwydd y Gronfa;
- Methiant y Corff a Ganiateir i dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa o fewn y cyfnod sy'n ofynnol gan y Gronfa; neu
- Methiant y Corff a Ganiateir i adnewyddu neu addasu lefel y bond neu'r indemniad, neu i gadarnhau gwarantwr arall priodol, fel sy'n ofynnol gan y Gronfa.
- Ar derfynu Cytundeb Dyled Gohiriedig

Ar derfyn, mi fydd yr Awdurdod Gweinyddol yn rhoi cyfarwyddyd i actiwari'r Gronfa i gwblhau prisiad terfynol i benderfynu os oes warged neu ddiffyg. Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol yr hawl i rhoi Cytundeb Dyled Gohiriedig mewn lle (fel a nodir yn Rheoliadau 64 (7A)). Mae manylion pellach isod.

Talu dyled terfynol

Ble mae diffyg, bydd angen taliad yn llawn gan y Corff a Ganiateir. Polisi arferol y Gronfa ydi bod y ddyled yma yn cael ei dalu fel lwmp swm o fewn 30 diwrnod.

Ond, yn ddarostynedig ar gyngor actiwaraid, cyfamod, a cyfreithiol fel yn briodol, yn unol a Rheoliadau sydd gyda'r budd gorau i bob parti, gall y Cronfa gytuno i'r taliad gael ei rhannu dros gyfnod penodol. Byddai unrhyw gytundeb yn gael ei ganiatau gan ddisgresiwn y Gronfa, ble byddai talu'r lwmp swm mewn un swm yn syth yn cael effaith niweidiol i weithrediad arferol y cyflogwr. Mewn achosion ble mae'r taliad yn cael ei rhannu dros amser, mae gan y Gronfa yr hawl i ofyn i'r cyflogwr sydd yn gorffen ddarparu rhyw fath o ddiogelwch (megis hawl dros asedau, indemniad bond neu gwarant) yn ymwneud a'r swm sydd yn ddyledus ar unrhyw adeg penodol.

Mae hyd unrhyw gyfnod talu yn ddibynnol ar amgylchiadau ariannol y cyflogwr a cryfder unrhyw ddiogelwch a ddarperit, ac fel arfer ni fuasai yn fwy na pum mlynedd. Mae'r Gronfa yn cadarnha y cyfnod rhannu, ad-daliadau blynyddol yn cynnwys unrhyw log, ac unrhyw gostau eraill (e.e. actiwari neu cyfreithiol) sydd yn daladwy gan y cyflogwr cyn i'r ad-daliadau gychwyn.

Mi fydd y Gronfa yn monitro amgylchiadau'r cyflogwr yn gyson yn ystod y cyfnod rhannu a gall ofyn am wybodaeth ariannol wedi ei ddiweddarau ble gall adolygu y trefniant ac ad-daliadau. Mi fydd y Gronfa yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer unrhyw drefniant rhannu neu adolygu o fewn tri mis o dderbyn y tystiolaeth perthnasol gan y cyflogwr.

Ystyried gwarged/ credyd ymadael

Ble mae gwarged, mae'r Awdurdod Gweinyddol yn penderfynu ar swm y credyd ymadael i'w dalu yn unol a'r Rheoliadau. Wrth wneud y penderfyniad, mi fydd yr Awdurdod Gweinyddol yn ystyried:

- i) maint unrhyw ddiffyg
- ii) cyfran unrhyw ddiffyg o ganlyniad i gyfraniadau cyflogwr;
- iii) unrhyw gynrychiolaeth (fel cytundebau rhannu risg neu warrant) sydd wedi ei wneud gan y cyflogwr sydd yn ymadael ac unrhyw cyflogwr sydd yn darparu gwarant (neu unrhyw fath o gefnogaeth/ cymorth) a
- iv) unrhyw ffactor arall mae'r Awdurdod Gweinyddol yn gweld yn berthnasol.

Mae Polisi Credyd Ymadael y Gronfa yn Atodiad G.

Lwfans ar gyfer McCloud ar ddarfyddiad

Fel y trafodwyd yn Adran 2.7, mae strwythur buddion LGPS o 1 Ebrill 2014 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn i'r Llywodraeth golli'r hawl i apelio yn erbyn McCloud ac achosion llys tebyg eraill. Mae'r Gronfa wedi ystyried sut y bydd yn adlewyrchu'r ansicrwydd cyfredol ynghylch canlyniad y dyfarniad hwn yn ei dull o brisio rhoi'r gorau iddi. Ar gyfer prisiadau rhoi'r gorau iddi cyn i unrhyw newidiadau i strwythur buddion LGPS (o 1 Ebrill 2014) gael eu cadarnhau, polisi'r Gronfa yw y bydd yr actiwari yn adolygu proffil yr aelodaeth sy'n dod i ben ac, os yw'n berthnasol, gall ychwanegu llwyth i ddod â gwerth cronriad budd-dal cyflogwr ar ôl 2014 i ben, fel amcangyfrif o effaith bosibl y newidiadau budd-dal sy'n deillio o hynny.

Ar gyfer Cyrff nad ydynt yn Trosglwyddo a Ganiateir sy'n dod â'u cyfranogiad i ben yn wirfoddol naill ai eu hunain neu gan y Gronfa, neu os fydd darfyddiad yn cael ei sbarduno, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu geisio diogelu buddion gweithwyr cyfredol eraill. Felly, bydd yr actwari yn mabwysiadu dull, i'r graddau sy'n ymarferol resymol,

sy'n diogelu gweithwyr eraill rhag y tebygolrwydd o unrhyw golled faterol yn codi yn y dyfodol.

- (a) Os nad oes gwarantwr yn bodoli, yna er mwyn diogelu gweithwyr eraill yn y Gronfa bydd ymrwymadau darfyddiad a diffyg terfynol fel arfer yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio 'sail darfod giltiau', sy'n fwy darbodus na'r sail barhaus. Nid oes gan hyn lwfans am berfformiad gwell buddsoddiadau posib yn y dyfodol uwchlaw enillion giltiau, ac mae wedi ychwanegu lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol o ran disgwyliad oes. Gallai hyn arwain at yr angen am ddyledion darfyddiad sylweddol.
- (b) Os oes gwarantwr ar gyfer diffygion yn y dyfodol a chyfraniadau, ystyrir manylion y gwarant cyn i'r prisiad darfyddiad gael ei gynnal. Mewn rhai achosion, y gwarantwr yn syml yw gwarantwr y dewis olaf ac felly cynhelir y prisiad darfyddiad yn gyson â'r dull a ddilynwyd petai dim gwarantwr yn ei le. Fel arall, os nad yw'r gwarantwr yn syml yn warantwr y dewis olaf, gellir cyfrifo'r darfyddiad drwy ddefnyddio'r sail barhaus a ddisgrifir yn Atodiad E;
- (c) Eto, yn dibynnu ar natur y gwarant, mae'n bosib trosglwyddo ymrwymadau ac asedau'r Corff blaenorol a Ganiateir i'r gwarantwr, heb fod angen crisialu unrhyw ddiffyg. Gellir mabwysiadu'r dull hwn os fydd y cyflogwr yn methu â thalu'r cyfraniadau dyledus, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn nheleirau'r gwarant.

Dan (a) a (b), fel arfer byddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei osod ar y Corff a Ganiateir sy'n gadael fel taliad lwmp swm unigol. Os nad yw hyn yn bosib, yna byddai'r Gronfa'n rhannu'r taliad ar yr amod bod ychydig o sicrwydd yn ei le i'r cyflogwr megis indemniad bond neu warant.

Os nad yw Cronfa'n gallu adennill y taliad gofynnol yn llawn, yna rhaid i'r symiau heb eu talu gael eu rhannu rhwng yr holl weithwyr eraill yn y Gronfa. Efallai y bydd hyn yn gofyn i'r Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sy'n effeithio gweithwyr eraill yn y Gronfa gael ei hadolygu ar unwaith, neu gael ei adlewyrchu yn y cyfraddau cyfraniadau a osodir yn y prisiad ffurfiol nesaf ar ôl dyddiad y darfyddiad.

Cytundeb Dyled Gohiriedig yn wahanol i ddarfyddiad yn syth

Fel dewis arall, os fydd Corff a Ganiateir sy'n darfod yn parhau i fod mewn busnes gall Awdurdod Gweinyddol fynd mewn i drefniant ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Gweinyddol i ohirio ei ymrwymiad i wneud taliad ymadael a pharhau i wneud cyfraniadau eilradd ('Cytundeb Dyled Gohiriedig; fel y disgrifir yn Rheol 64 (7A)). Mae mabwysiadu'r ffordd yma yn parhau i ddatgelu'r cyflogwr i'r farchnad stoc a risgiau cyllido eraill yn ystod y cyfnod gohirio, sydd yn arian at newid swm y ddyled, yn hytrach na chrisialu swm y ddyled ar y pwynt gorffen.

Mae angen i'r cyflogwr gohiriedig gwrdd a holl ofynion cyflogwyr y Gronfa a thalu y cyfradd eilradd o gyfraniadau fel a penderfynir gan Actwari'r Gronfa nes bydd y Cytundeb Dyled Gohiriedig wedi gorffen.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddol yn ystyried Cytundeb Dyled Gohiriedig (CDG) yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r cyflogwr yn gofyn i'r Gronfa ystyried CDG;
- Mae disgwyl i'r cyflogwr fod gyda diffyg pam yn cwblhau'r cyfrifiad terfynu;
- Mae disgwyl bod y cyflogwr yn fusnes gweithredol;
- Mae'r cyfamod gan y cyflogwr yn ddiagonol gan yr Awdurdod Gweinyddol.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddol fel arfer angen:

- Diogelwch mewn lle i sicrhau diffyg y cyflogwr ar sail darfyddiad;
- Monitro cyson o'r gofynion cyfraniadau a gofynion diogelwch;
- Bod y costau i gyd yn cael ei gwrdd gan y cyflogwr, megis y gost actiwariaid neu gyfreithiol i'r Gronfa, monitro parhaus y trefniant a gohebiaeth am unrhyw ofynion cyfraniadau neu ddiogelwch.

Bydd CDG fel arfer yn terfynu'r diwrnod cyntaf mae un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd:

- Mae'r cyflogwr gohiriedig yn cofrestru aelod actif newydd i'r gronfa;
- Mae'r cyfnod a nodi, neu wedi newid, wedi gorffen o dan y CDG;
- Mae yna gymryd drosodd, uno, ansolfedd, dirwyn i ben neu ddatodiad o'r cyflogwr gohiriedig;
- Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn rhoi rhybudd i'r cyflogwr gohiriedig bod yr Awdurdod Gweinyddol yn rhesymol fodlon bod gallu'r cyflogwr i dalu'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y CDG wedi gwanhau yn sylweddol neu yn debygol o wanhau yn sylweddol dros y 12 mis nesaf;
- Mae Actwari'r Gronfa wedi asesu bod y cyflogwr gohiriedig wedi talu digon o gyfraniadau eilradd i dalu (neu bron i gyd) y taliad ymadael pe byddai'r cyflogwr wedi gadael ar ddiwrnod y cyfrifiad (e.e. mae'r cyflogwr sy'n gadael nawr mwy neu lai wedi ei gyllido yn llawn ar y sail darfyddiad);
- Mae Actwari'r Gronfa yn asesu bod gwerth ymrwymadau'r cyflogwr wedi gostwng o dan lefel de minis a gytunwyr, os byddai'r cyflogwr gohiriedig wedi gadael ar ddyddiad y cyfrifiad; neu
- Os byddai'r cyflogwr gohiriedig wedi gofyn am derfynu'r cytundeb yn gynnar ac yn talu'r taliad ymadael yn llawn fel y cyfrifir gan Actwari'r Gronfa ar ddyddiad y cyfrifiad (h.y. mae'r cyflogwr yn talu'r ddyled darfyddiad ar sail darfyddiad).

Ar derfynu'r CDG, mae'r cyflogwr gohiriedig yn dod yn gyflogwr wedi gadael ac mae gwerth terfynol yn cael ei gyfrifo yn unol ar DSC.

3.4 Hyblygrwydd ychwanegol yn lle sicrwydd ychwanegol

Gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu mwy o hyblygrwydd i gyfraniadau'r cyflogwr os fydd y cyflogwr yn darparu sicrwydd ychwanegol i fodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddu.

Mae hyblygrwydd o'r fath yn cynnwys cyfradd lai o gyfraniadau, cyfnod amser estynedig, neu ganiatâd i ymuno â phŵl gyda chorff arall (e.e. yr Awdurdod Lleol).

Gall sicrwydd o'r fath gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny, bond addas, gwarant wedi'i rwymo mewn cyfraith gan drydydd parti priodol, neu sicrwydd dros ased o werth digonol gan gyflogwr.

Gall graddau'r hyblygrwydd a roddir ystyried ffactorau megis:

- graddau diffyg y cyflogwr;
- swm ac ansawdd y sicrwydd a gynigir;
- sicrwydd ariannol a chynllun busnes y cyflogwr; a
- p'un a yw'r cytundeb derbyn yn debygol o fod ar agor neu ar gau i ddechreuwr newydd.

3.5 Costau ymddeoliad cynnar nad yw ar sail salwch

Tybir bod buddion aelodau'n daladwy o'r oedran cynharaf allai'r gweithiwr ymddeol heb achosi gostyngiad i'w buddion (a heb yr angen am ganiatâd eu cyflogwr i ymddeol). (**DS** gallai'r oedran perthnasol fod yn wahanol am gyfnodau gwahanol o wasanaeth, yn dilyn y newidiadau mewn buddion o fis Ebrill 2008 ac Ebrill 2014). Mae gofyn i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol ('straen') pryd bynnag y mae gweithiwr yn ymddeol cyn cyrraedd yr oedran hwn. Nid yw sail cyllido'r actwari'n ystyried ymddeol yn gynnar ac eithrio ar sail salwch.

Gyda chytundeb yr Awdurdod Gweinyddu, gellir rhannu'r taliad fel a ganlyn:

Cyrff Cyflogi Mawr - hyd at 5 mlynedd

Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr sy'n Dynodi - hyd at 3 blynedd

Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir - yn daladwy ar unwaith.

3.6 Costau ymddeoliad cynnar ar sail salwch

Os fydd aelod yn ymddeol yn gynnar ar sail salwch, bydd straen cyllido'n codi fel arfer, allai fod yn fawr iawn. Mae gan y Gronfa bolisi yswiriant salwch ar gyfer cyflogwyr llai yn y Gronfa. Bydd hyn yn talu swm i'r Gronfa sy'n gyfwerth yn fras â'r straen cyllido yn achos cais llwyddiannus. Ar gyfer pob cyflogwr arall nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen cyllido sy'n fwy na'r ystyriaeth a roddwyd i'r sail cyllido'n cael ei ddiwallu drwy gynyddu cyfraniadau cyfredol.

Ar gyfer pob cyflogwr arall nad yw'n dod o dan y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen cyllido sy'n fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu yn cael ei fodloni trwy gynyddu cyfraniadau parhaus.

3.7 Cyflogwyr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl

Yn gyffredinol, bydd cyflogwr sy'n darfod yn y Gronfa, oherwydd ymadawiad yr aelod gweithredol olaf, yn talu dyled darfyddiad ar sail briodol (gweler [3.3, Nodyn \(i\)](#)) ac o ganlyniad ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth bellach i'r Gronfa. Yna, disgwylir y bydd un o ddwy sefyllfa'n codi yn y pen draw:

- a) Cyfran asedau'r cyflogwr yn rhedeg allan cyn i holl fuddion ei gyn-weithwyr gael eu talu. Yn y sefyllfa hon, bydd angen i gyflogwyr eraill y Gronfa gyfrannu i dalu'r holl fuddion sy'n weddill: gwneir hyn gan actwari'r Gronfa drwy ddyrannu'r ymrwymadau sy'n weddill ar sail pro-rata mewn prisiadau dilynol ffurfiol;
- b) Mae'r cyn-weithiwr neu'r dibynnydd olaf yn marw cyn i gyfran asedau'r cyflogwr gael ei defnyddio'n llawn. Yn y sefyllfa hon, byddai'r asedau sy'n weddill yn cael eu dyrannu ar sail pro-rata gan actwari'r Gronfa i gyflogwyr eraill y Gronfa.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Gronfa ganiatáu i gyflogwr heb unrhyw aelodau gweithredol ar ôl barhau i gyfrannu i'r Gronfa. Byddai hyn yn gofyn am ddarparu sicrwydd neu warant addas, yn ogystal ag ymrwymiad parhaus ysgrifenedig i gyllido gweddill goblygiadau'r cyflogwr dros gyfnod priodol. Byddai'r Gronfa'n cadw'r hawl i ddefnyddio gofynion darfyddiad yn y dyfodol, Efallai y bydd yr Awdurdod Gweinyddu angen gofyn am gyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath, oherwydd ni fyddai gan y cyflogwr unrhyw aelodau sy'n cyfrannu.

3.8 Polisiâu ar drosglwyddiadau swmpus

Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn gyffredinol:

- Ni fydd y Gronfa'n talu trosglwyddiadau swmpus sy'n fwy na'r swm lleiaf o blith (a) cyfran asedau'r cyflogwr sy'n trosglwyddo yn y Gronfa, a (b) gwerth ymrwymladau gwasanaeth yr aelodau sy'n trosglwyddo yn y gorffennol;
- Ni fydd y Gronfa'n caniatáu buddion ychwanegol i aelodau sy'n dod â hawliadau o Gronfa arall i mewn oni bai bod y trosglwyddiad ased yn ddigon i ddiwallu'r ymrwymladau ychwanegol; a
- Gallai'r Gronfa ganiatáu i ddiffyg ariannol godi ar drosglwyddiadau swmpus os oes gan gyflogwr y Gronfa gryfder cyfamod addas ac os yw'n ymrwymo i ddiwallu'r diffyg ariannol hwnnw mewn cyfnod priodol. Efallai bydd hyn yn gofyn i gyfraniadau Cronfa'r cyflogwr gynyddu rhwng prisiau.

4. Strategaeth gyllido a chysylltiadau i'r strategaeth fuddsoddi

4.1 Beth yw strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?

Mae'r Gronfa wedi cynhyrchu asedau dros y blynyddoedd, ac yn parhau i dderbyn cyfraniadau ac incymau eraill. Rhaid buddsoddi hyn i gyd mewn dull addas, a dyma yw'r strategaeth fuddsoddi.

Mae'r awdurdod gweinyddu'n gosod y strategaeth fuddsoddi, ar ôl ymgynghori â'r cyflogwyr ac ar ôl cymryd cyngor ar fuddsoddi. Mae'r union gyfuniad, y rheolwyr a'r targedau enillion wedi'u gosod yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi sydd ar gael i aelodau a chyflogwyr.

Gosodir y strategaeth fuddsoddi ar gyfer yr hirdymor, ond fe'i hadolygir o bryd i'w gilydd. Fel arfer, cynhelir adolygiad llawn fel rhan o bob prisiad actwaraidd, ac fe'i hadolygir yn flynyddol rhwng prisiadau actwaraidd i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol ar gyfer proffil ymrwymadau'r Gronfa.

Mae'r un strategaeth fuddsoddi'n cael ei dilyn ar gyfer yr holl gyflogwyr ar hyn o bryd.

4.2 Beth yw'r cysylltiad rhwng strategaeth gyllido a strategaeth fuddsoddi?

Rhaid i'r Gronfa fedru talu'r holl daliadau buddion pan ddônt yn ddyledus. Bydd y taliadau hyn yn cael eu bodloni gan gyfraniadau (sy'n arwain o'r strategaeth gyllido) neu enillion ased ac incwm (sy'n arwain o'r strategaeth fuddsoddi). Os bydd yr enillion ar fuddsoddiadau neu incwm yn fyr, yna bydd angen cyfraniadau arian parod uwch gan gyflogwyr, ac i'r gwrthwyneb.

Felly, mae cysylltiad amlwg rhwng y strategaethau cyllido a buddsoddi.

4.3 Sut mae'r strategaeth fuddsoddi'n adlewyrchu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa?

Mae actwari'r Gronfa o'r farn fod y polisi cyllido cyfredol yn gyson â strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa. Mae rhagdybiaethau'r actiwari ar gyfer enillion buddsoddi y dyfodol (a ddisgrifir ymhellach yn Atodiad E) yn seiliedig ar strategaeth fuddsoddi meincnod gyfredol y Gronfa. Mae'r rhagdybiaethau enillion buddsoddiad yn y dyfodol sy'n sail i bob un o dair sylfaen ariannu'r gronfa yn cynnwys ffin ar gyfer pwyll, ac felly fe'u hystyrir yn gyson â'r gofyniad i gymryd "golwg ddarbodus yn y tymor hwy" o ariannu rhwymedigaethau fel sy'n ofynnol gan y DU. Llywodraeth (gweler Atodiad A1).

Yn y tymor byr - fel yr asesiadau tair blynedd ar brisiadau ffurfiol - mae lle i amrywiad sylweddol yng ngwerth asedau. Fodd bynnag, mae'r actiwari yn cymryd golwg tymor hir wrth asesu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ac mae'r fethodoleg gosod cyfraddau cyfrannu yn ystyried yr amrywioldeb posibl hwn.

Nid yw'r Gronfa'n dal unrhyw reserfau wrth gefn i'w gwarchod rhag anweddolrwydd buddsoddiadau ecwiti.

Mae rhagdybiaeth gwell perfformiad yr asedau yn y gyfradd ddisgownt (gweler Atodiad E3) o fewn amrediad fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol er dibenion cyllido; hefyd, ystyrir ei fod yn gyson â'r gofyn i gymryd "golwg mwy hirdymor darbodus" o gyllido ymrwmiadau fel sydd ei angen gan Lywodraeth y DU (gweler Atodiad A1).

Fodd bynnag, yn y byrdymor - megis yn ystod yr asesiadau bob tair blynedd mewn prisiadau ffurfiol - mae sgôp am anweddolrwydd sylweddol ac mae siawns y bydd enillion ar asedau'n fyr o'r targed yn y byrdymor a'r tymor canolig. Bydd y mesurau sefydlogrwydd a ddisgrifir yn Adran 3 yn lleihau, ond nid yn cael gwared, ar yr effaith ar gyfraniadau cyflogwyr.

5. Adrodd statudol a chymharu â Chronfeydd CPLIL eraill

5.1 Diben

Dan Adran 13(4)(c) Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Adran 13"), rhaid i Adran Actwari'r Llywodraeth, yn dilyn pob prisiad tair blynedd, adrodd i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar bob Cronfa CPLIL yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â p'un a yw'r raddfa cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd ac effeithiolrwydd cost hirdymor y Gronfa, a hynny ar gyfer pob Cronfa.

Gall yr oruchwyliaeth ychwanegol hon gan yr MHCLG effeithio ar y strategaeth ar gyfer gosod cyfraddau mewn prisiadau yn y dyfodol.

5.2 Diddyledrwydd

Er dibenion Adran 13, pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod ar lefel briodol i sicrhau diddyledrwydd os:

- (a) yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr wedi'i gosod i dargedu lefel gyllido o 100% ar gyfer y Gronfa dros gyfnod priodol o amser a chan ddefnyddio tybiaethau actwaraidd priodol (pan ystyri'r priodoldeb yn nhermau absoliwt a pherthnasol o gymharu â chronfeydd eraill) a naill ai
- (b) fod gan gyflogwyr ar y cyd y capasiti ariannol i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr, ac/neu mae modd i'r Gronfa gyflawni asedau amodol pe byddai amgylchiadau'n gofyn amdanynt yn y dyfodol, er mwyn bwrw ymlaen i dargedu lefel gyllido o 100%, neu
- (c) fod cynllun priodol yn ei le pe byddai, neu os oes disgwyl yn y dyfodol, gweld cynnydd perthnasol yng nghapasiti cyflogwyr y gronfa i gynyddu cyfraniadau yn ôl yr angen.

5.3 Effeithiolrwydd Cost Hirdymor

Pennir fod cyfradd cyfraniadau cyflogwyr wedi'u gosod ar lefel briodol i sicrhau effeithiolrwydd cost hirdymor os:

- i. yw cyfradd y cyfraniadau cyflogwyr yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cost gyfredol y buddion cronnus,
- ii. gydag addasiad priodol yn cael ei wneud i'r gyfradd honno ar gyfer unrhyw warged neu ddiffyg yn y Gronfa.

Wrth asesu p'un ai yw'r amod uchod yn cael ei fodloni, efallai y bydd yr MHCLG yn ystyried amrywiol ystyriaethau absoliwt a pherthnasol. Yn bennaf, mae ystyriaeth berthnasol yn ymwneud â chymharu cronfeydd pensiwn CPLIL â chronfeydd pensiwn CPLIL eraill. Yn bennaf, mae ystyriaeth absoliwt yn ymwneud â chymharu Cronfeydd gyda meincnod penodol a osodwyd.

Mae'r prif ystyriaethau perthnasol yn cynnwys:

1. y cyfnod adfer diffyg ymhlyg; ac
2. yr enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol i gyflawni cyllido llawn ar ôl 20 mlynedd.

Mae'r ystyriaethau absoliwt yn cynnwys:

1. y graddau y mae'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ddigonol i dalu am gostau'r buddion cronus cyfredol a chost y llog ar unrhyw ddiffyg;
2. sut mae'r enillion ar fuddsoddiadau angenrheidiol dan yr "ystyriaethau perthnasol" uchod yn cymharu â'r enillion a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol sy'n cael eu targedu gan strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa;
3. y graddau mae'r cyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd wedi bod yn unol â'r cyfraniadau disgwylidig yn seiliedig ar y dystysgrif cyfraniadau ac addasiadau gyfredol; ac
4. y graddau y gall unrhyw gynllun adfer diffyg newydd gael ei gysoni â, ac arddangos ei fod yn parhau ag, unrhyw gynllun adfer diffyg blaenorol, ar ôl darparu ar gyfer gwir brofiad y Gronfa.

Gall MHCLG asesu a chymharu'r metricsau hyn ar sail safonol sy'n berthnasol i'r farchnad, er enghraifft, pan nad yw sail actwaraidd cronfeydd lleol yn gwneud cymariaethau yn syml.

Atodiad A - Fframwaith Rheoleiddio

A1 Pam fo'r Gronfa angen DSC?

Mae'r Adran Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi nodi mai diben yr DSC yw:

“to establish a clear and transparent fund-specific strategy which will identify how employers’ pension liabilities are best met going forward;

*to support the regulatory framework to maintain **as nearly constant employer contribution rates as possible**; and*

*to take a **prudent longer-term view** of funding those liabilities.”*

Gall yr amcanion hyn fod yn ddigon dymunol ar wahân, ond gallant wrthdaro wrth eu hystyried ar yr un pryd.

Mae'r gofyn i gynnal a chyhoeddi DSC wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau CPLIL sy'n cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Wrth gyhoeddi'r DSC, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi gorfod ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y *Chartered Institute of Public Finance and Accountancy* (CIPFA) (yn fwyaf diweddar yn 2016) a'i Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi / Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Dyma'r fframwaith mae actwari'r Gronfa'n ei ddefnyddio i gynnal y prisiad bob tair blynedd i sefydlu cyfraniadau'r cyflogwyr ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod Gweinyddu pan fo angen gwneud penderfyniadau cyllido eraill, pan a phryd y mae cyflogwyr yn ymuno â'r Gronfa neu yn ei gadael. Mae'r DSC yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa.

A2 A yw'r Awdurdod Gweinyddu yn ymgynghori ag unrhyw un ar yr DSC?

Ydy. Mae hyn yn ofyn yn Rheoliadau'r CPLIL. Ymdrinnir â hyn mewn mwy o fanylder yng nghanllawiau diweddaraf CIPFA, sy'n nodi bod angen i'r DSC, yn gyntaf, fod yn destun *“consultation with such persons as the authority considers appropriate”*, ac y dylai gynnwys *“a meaningful dialogue at officer and elected member level with council tax raising authorities and with corresponding representatives of other participating employers”*.

Yn ymarferol, ar gyfer y Gronfa, roedd y broses ymgynghori ar gyfer y DSC hwn fel a ganlyn:

- a) Cylchredwyd fersiwn drafft o'r DSC i'r holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2020 am sylwadau;
- b) Gofynnwyd am sylwadau o fewn 42 diwrnod;
- c) Cynhaliwyd Fforwm Cyflogwyr ar 24 Hydref 2019 ac yno, roedd modd holi cwestiynau ynghylch strategaethau cyllido a chael ateb i'r cwestiynau hynny;
- d) Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, cafodd yr DSC ei ddiweddarau ble bo'r angen ac yna cafodd ei gyhoeddi, ym mis Mawrth.

A3 Sut mae'r DSC yn cael ei gyhoeddi?

Mae'r DSC ar gael fel a ganlyn:

- Caiff ei gyhoeddi ar y wefan www.cronfabensiwngwynedd.org;
- Anfonir copi e-bost at bob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa;

- Anfonir copi at gynrychiolwyr gweithwyr;
- Copi llawn wedi'i gysyllt] o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon y Gronfa;
- Anfonir copïau at y rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr annibynnol;
- Bydd copïau ar gael ar gais.

A4 Pa mor aml mae'r DSC yn cael ei adolygu?

Adolygir y DSC mewn manylder o leiaf bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad bob tair blynedd (gall symud i pob pedair blynedd yn y dyfodol – gweler adran 2.8). Disgwylir i'r fersiwn hon barhau heb ei haddasu hyd nes yr ymgynghorir arni fel rhan o'r broses ffurfiol ar gyfer y prisiad nesaf.

Mae'n bosib y bydd angen (mân) addasiadau yn ystod y cyfnod tair blynedd. Byddai angen i'r rhain adlewyrchu unrhyw newidiadau rheoleiddio, neu addasiadau i'r ffordd mae'r Gronfa'n gweithredu (e.e. i ddarparu ar gyfer dosbarth newydd o gyflogwr). Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar unrhyw addasiadau o'r fath fel sy'n briodol:

- rhoddir gwybod i gyflogwyr am unrhyw fân newidiadau dibwys yn ystod y cylch nesaf o gyfathrebu â chyflogwyr,
- os bydd addasiadau yn effeithio ar un dosbarth o gyflogwyr yn unig, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r cyflogwyr hynny,
- byddai addasiadau mwy arwyddocaol yn destun ymgynghoriad llawn arall.

Mewn unrhyw achos, byddai angen i'r Pwyllgor Pensiynau ddod i gytundeb ar newidiadau i'r DSC a byddai'n cael ei gynnwys yn y cofnodion Cyfarfod Pwyllgor perthnasol.

A5 Sut mae'r DSC yn ffitio i mewn i ddogfennau eraill y Gronfa?

Mae'r DSC yn grynodedb o ddull y Gronfa o gyllido ymrwymadau. Nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o'r polisi ar yr holl faterion, er enghraifft, mae nifer o ddatganiadau ar wahân yn cael eu cyhoeddi gan y Gronfa yn cynnwys y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi, Strategaeth Lywodraethu a'r Strategaeth Gyfathrebu. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol gyda gwybodaeth gyfredol am y Gronfa.

Gweler y dogfennau hyn ar y we yn www.cronfabensiwngwynedd.org

Atodiad B - Cyfrifoldebau'r partïon allweddol

Mae angen i'r partïon amrywiol oll chwarae eu rhan er mwyn i'r Gronfa weithredu'n effeithlon ac effeithiol.

B1 Dylai'r Awdurdod Gweinyddu:-

1. Weithredu'r Gronfa yn unol â'r Rheoliadau CPLIL;
2. rheoli'n effeithiol unrhyw wrthdaro buddiannau posib sy'n codi o'i rôl ddeublyg fel Awdurdod Gweinyddu a chyflogwr y Gronfa;
3. casglu cyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi a symiau eraill sy'n ddyledus i'r Gronfa;
4. sicrhau fod arian parod ar gael i dalu buddion pan fyddant yn ddyledus;
5. talu o'r Gronfa'r buddion perthnasol a'r hawliadau sy'n ddyledus;
6. buddsoddi unrhyw arian dros ben (h.y. cyfraniadau ac incymau eraill nad oes eu hangen ar unwaith i dalu buddion) yn unol â Datganiad Strategaeth Fuddsoddi a'r Rheoliadau CPLIL;
7. cyfathrebu'n effeithiol gyda chyflogwyr fel eu bod yn llwyr ddeall eu goblygiadau tuag at y Gronfa;
8. cymryd mesurau priodol i ddiogelu'r Gronfa yn erbyn y canlyniadau pan fo cyflogwr yn diffyg dalu;
9. rheoli'r broses prisiad mewn ymgynghoriad ag actwari'r Gronfa;
10. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5);
11. darparu a chynnal DSC a DSB, ar ôl ymgynghori;
12. hysbysu actwari'r Gronfa ynghylch newidiadau perthnasol a allai effeithio ar y cyllid (ymdrinnir â hyn mewn cytundeb ar wahân gyda'r actwari); a
13. monitro holl agweddau o berfformiad y gronfa a'r cyllido ac addasu'r DSC a'r DSB fel bo'r angen ac fel sy'n briodol.

B2 Dylai'r Cyflogwr Unigol:-

1. ddidynnu cyfraniadau o dâl gweithwyr yn gywir;
2. talu'r holl gyfraniadau, yn cynnwys ei rai eu hun fel y pennwyd gan yr actwari, yn brydlon erbyn y dyddiad dyledus;
3. cael polisi a gweithredu disgrisiwn o fewn y fframwaith rheoleiddio;
4. gwneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â, er enghraifft, gynnydd ym muddion y cynllun, straen yn sgil ymdeoliad cynnar; ac
5. hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu yn brydlon ynghylch yr holl newidiadau yn ei amgylchiadau, rhagolygon neu aelodaeth, a allai effeithio ar gyllido yn y dyfodol.

B3 Dylai Actwari'r Gronfa:-

1. ddarparu prisiadau, yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddu, gan ystyried yr DSC a'r Rheoliadau CPLIL, a thargedu diddyledrwydd pob cyflogwr yn briodol;
2. darparu data a gwybodaeth fel sydd ei angen gan Adran Actwari'r Llywodraeth i gwblhau eu goblygiadau statudol (gweler Adran 5);
3. rhoi cyngor perthnasol i gyflogwyr newydd yn y Gronfa, gan gynnwys lefel a math y bondiau a ffurfiau eraill o ddiogelwch (a monitro'r rhain);
4. paratoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â throsglwyddiadau swmpus a materion unigol yn ymwneud â buddion;
5. cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i ystyried newidiadau posib i gyfraniadau cyflogwyr rhwng prisiadau ffurfiol, pan fo amgylchiadau'n awgrymu y gallai hyn fod yn angenrheidiol;
6. cynghori ar derfynu cyfranogiad cyflogwr yn y Gronfa; ac
7. adlewyrchu'n llawn ar ganllawiau proffesiynol actwaraidd ac ar y gofynion yn y cyngor a roddir i'r Awdurdod Gweinyddu.

B4 Partïon eraill:-

1. dylai ymgynghorwyr buddsoddi (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod DSB y Gronfa'n parhau'n briodol ac yn gyson â'r DSC hwn;
2. dylai rheolwyr buddsoddi, ceidwaid a bancwyr i gyd chwarae eu rhan mewn perthynas â buddsoddi (a rhoi'r gorau i fuddsoddi) asedau'r Gronfa, yn unol â'u DSB;
3. dylai archwilwyr gydymffurfio â'u safonau archwilio eu hunain, sicrhau cydymffurfiaeth y Gronfa â'r holl ofynion, monitro a chynghori ar ganfod twyll, ac arwyddo adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol yn derfynol fel bo'r angen;
4. efallai y penodir ymgynghorwyr llywodraethu i gynghori'r Awdurdod Gweinyddu ar brosesau a dulliau gweithio effeithlon o ran rheoli'r Gronfa;
5. dylai ymgynghorwyr cyfreithiol (naill ai'n fewnol neu'n allanol) sicrhau fod gweithrediad y Gronfa a'i rheolaeth yn parhau i gydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion llywodraeth leol ehangach, gan gynnwys gweithdrefnau'r Awdurdod Gweinyddu ei hun;
6. dylai'r MHCLG (gyda chymorth gan Adran Actwari'r Llywodraeth) a Bwrdd Cynghori'r Cynllun, weithio â Chronfeydd CPLIL i fodloni gofynion Adran 13.

Atodiad C - Prif risgiau a rheolaethau

C1 Mathau o risg

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu raglen rheoli risg weithredol yn ei lle. Mae'r mesurau sydd ganddo yn ei le i reoli risgiau allweddol wedi'u crynhoi isod dan y penawdau a ganlyn:

- ariannol;
- demograffig;
- rheoleiddio; a
- llywodraethu.

C2 Risgiau ariannol

Risg	Crynodeb o'r Mekanweithiau Rheoli
Asedau'r gronfa yn methu â chyflawni enillion yn unol â'r enillion a ragwelwyd sy'n tanategu prisiad yr ymrwymiadau dros y tymor hir.	<p>Ddim ond yn rhagweld enillion tymor hir ar sail gweddol ddarbodus er mwyn lleihau'r risg o danberfformio.</p> <p>Asedau'n cael eu buddsoddi yn seiliedig ar gyngor arbenigol, mewn dull amrywiol addas ar draws y dosbarthiadau ased, daearyddiaeth, rheolwyr, ac ati.</p> <p>Dadansoddi cynnydd yn ystod y prisiadau bob tair blynedd i'r holl gyflogwyr.</p> <p>Rowlio'r ymrwymiadau ymlaen rhwng prisiadau ar lefel Cronfa gyfan.</p>
Strategaeth fuddsoddi hirdymor amhriodol.	<p>Opsiynau ar gyfer y strategaeth fuddsoddi gyffredinol wedi'u hystyried fel rhan hanfodol o'r strategaeth gyllido. Wedi defnyddio Modelu ymrwymiadau ased i fesur 4 deilliant allweddol.</p> <p>Ystyrir mai'r opsiwn sydd wedi'i ddewis sy'n rhoi'r cydbwysedd gorau.</p>
Tanberfformiad rheolwr buddsoddi gweithredol mewn perthynas â'r meincnod.	<p>Mae monitro buddsoddiadau yn chwarterol yn dadansoddi perfformiad y farchnad a rheolwyr gweithredol o ran eu meincnod mewn perthynas â'r farchnad.</p>
Chwyddiant cyflog a phrisiau yn sylweddol uwch na ragwelwyd.	<p>Mae ffocws y broses brisio actwaraidd ar wir enillion ar asedau, gan gynnwys cynnydd mewn prisiau a chyflogau.</p> <p>Mae monitro rhwng prisiadau, fel yr uchod, yn rhoi rhybudd cynnar.</p>

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
	<p>Mae buddsoddi rhywfaint mewn bondiau yn cynorthwyo i liniaru'r risg yn ogystal.</p> <p>Mae cyflogwyr yn talu am eu cyflogau eu hunain a dylent fod yn ystyriol o'r effaith y caiff unrhyw fias mewn codiadau cyflog pensiynadwy tuag at weithwyr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hwy, ar ymrwymadau pensiwn.</p>
Effaith cynnydd posib mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyflwyniad y gwasanaeth ac ar gyrff a ganiateir / cyrff ar yr atodlen.	Mae mecanwaith sefydlogi penodol wedi'i gytuno fel rhan o'r strategaeth gyllido. Mae mesurau eraill yn eu lle hefyd i gyfyngu ar gynnydd cyflym mewn cyfraniadau.
Mae cyflogwyr amddifad yn arwain at gostau ychwanegol i'r Gronfa.	<p>Mae'r Gronfa'n ceisio dyled darfyddiad (neu sicrwydd/gwarantwr) i isafu'r risg y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.</p> <p>Os bydd yn digwydd, mae'r Actwari yn cyfrifo'r gost ychwanegol wedi'i rhannu ar sail pro-rata ymysg yr holl gyflogwyr.</p>
Effaith posib tan-berfformio asedau oherwydd newid yn yr hinsawdd	Mae'r Gronfa yn buddsoddi ei asedau o fewn canllawiau a chredoau buddsoddi cyfrifol.

C3 Risgiau demograffig

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
Pensiynwyr yn byw yn hirach, gan gynyddu'r gost i'r Gronfa.	<p>Gosod tybiaethau marwoldeb gyda pheth lwfans am gynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.</p> <p>Mae gan Actwari'r Gronfa fynediad uniongyrchol at brofiadau dros 50 o gronfeydd CPLIL sy'n caniatáu ar gyfer adnabod yn gynnar unrhyw newidiadau mewn disgwyliad oes a allai yn eu tro effeithio ar y tybiaethau sy'n tanategu'r prisiad.</p>
Cronfa sy'n Aeddfedu - h.y. cyfradd y gweithwyr sy'n cyfrannu'n weithredol yn gostwng o gymharu â nifer y gweithwyr sydd wedi ymddeol.	Parhau i fonitro yn ystod pob prisiad, ystyried ceisio symiau o arian yn hytrach na % o'r cyflog ac ystyried strategaethau buddsoddi amgen.

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
Patrymau o ymddeoliadau cynnar sy'n dirywio	<p>Codir ffi ychwanegol ar gyflogwyr mewn perthynas â chostau ychwanegol ymddeoliadau nad ydynt yn seiliedig ar iechyd yn dilyn pob penderfyniad unigol.</p> <p>Mae profiad ymddeoliad ar sail iechyd gweithwyr yn cael ei fonitro, ac mae polisi yswiriant ar sail iechyd yn ei le ar gyfer cyflogwyr llai.</p>
Gostyngiadau yn y gyflogres yn arwain at daliadau adfer diffyg annigonol	<p>Mewn sawl achos, efallai na fydd hyn yn ddigon o destun pryder, a bydd yn derbyn sylw yn ystod y prisiad ffurfiol nesaf. Fodd bynnag, mae gwarchodaeth pan fo pryderon, fel a ganlyn:</p> <p>Efallai y tynnir cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yn y mecanwaith sefydlogi allan o'r mecanwaith hwnnw i ganiatáu ar gyfer cynnydd priodol mewn cyfraniadau (gweler <u>Nodyn (b)</u> i 3.3).</p> <p>I gyflogwyr eraill, caniateir adolygu cyfraniadau yn gyffredinol rhwng prisiadau (gweler <u>Nodyn (f)</u> i 3.3).</p>

C4 Risgiau rheoleiddio

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
Newidiadau i'r gofynion pensiwn cenedlaethol ac/neu reolau HMRC e.e. newidiadau sy'n codi o ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus.	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro'r cynnydd ar achos llys McCloud a bydd yn ystyried prisiad dros dro neu gamau priodol eraill unwaith y bydd mwy o wybodaeth yn hysbys.</p> <p>Cafodd yr ymateb a ffeirir yn y tymor hir gan y Llywodraeth i gydraddoli GMP sef i drosi GMP yn fuddion cynllun - ei gynnwys ym mhrisiad 2019.</p>

<p>Amser, cost ac/neu risgiau i enw da sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymyrraeth gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi'i symbylu gan y dadansoddiad Adran 13 (gweler <u>Adran 5</u>).</p>	<p>Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar sefyllfa'r Gronfa fel ag yr oedd yn ystod yr prisiad blaenorol, ac ystyried y dull prasio arfaethedig mewn perthynas â'r dadansoddiad Adran 13 a ragwelir.</p>
<p>Newidiadau gan y Llywodraeth i gyfranogiad cyflogwr penodol mewn Cronfeydd CPLIL, gan arwain at effeithiau ar gyllido ac/neu strategaethau buddsoddi.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n ystyried yr holl bapurau ymgynghori a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol.</p> <p>Cymryd cyngor gan Actwari'r Gronfa ar effaith y newidiadau ar y Gronfa ac addasu'r strategaeth fel sy'n briodol.</p>

C5 Risgiau llywodraethu

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
<p>Awdurdod Gweinyddu ddim yn ymwybodol o newidiadau strwythurol mewn aelodaeth cyflogwr (e.e. cwmp mawr yn y niferoedd aelodau, nifer uchel o ymddeoliadau) neu heb gael eu hysbysu fod cyflogwr yn cau'r Gronfa i ddechreuwy'r newydd.</p>	<p>Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu berthynas agos â chyrrff cyflogi ac yn cyfathrebu'r safonau gofynnol iddynt, e.e. cyflwyno data.</p> <p>Gall yr Actwari adolygu'r dystysgrif cyfraddau ac Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr rhwng y prisiad bob tair blynedd.</p> <p>Gellir mynegi cyfraniadau diffyg fel symiau ariannol.</p>
<p>Ni cheisir cyngor actwaraidd nac ar fuddsoddi, neu nid ydyw'n cael ei ystyried, neu profir ei fod yn annigonol mewn unrhyw ffordd</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn parhau mewn cysylltiad agos â'i ymgynghorwyr arbenigol.</p> <p>Cyflwynir data drwy gyfarfodydd ffurfiol sydd hefyd yn cynnwys Aelodau Etholedig, ac fe'u cofnodir yn briodol.</p> <p>Mae cyngor actwaraidd yn destun gofynion proffesiynol megis adolygiad cymheiriaid.</p>
<p>Yr Awdurdod Gweinyddu'n methu â chomisiynu Actwari'r Gronfa i gynnal prisiad terfynu ar gyfer Corff a Ganiateir sy'n gadael y Gronfa.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n gofyn i gyflogwyr sydd â chontractwyr Gwerth Gorau i'w hysbysu o'u newidiadau arfaethedig.</p>

Risg	Crynodeb o'r Mecanweithiau Rheoli
	<p>Mae aelodaeth Cyrff Cymunedol a Ganiateir yn cael ei fonitro, ac os bydd aelodaeth weithredol yn gostwng, cymerir camau.</p>
<p>Cyflogwr yn dirwyn i ben gyda chyllid neu fond annigonol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n credu y byddai fel arfer yn rhy hwyr i ymdrin â'r sefyllfa hon pe byddai'n cael ei gadael hyd nes yr amser ymadael.</p> <p>Lliniarir y risg drwy:</p> <p>Geisio gwarantwr cyllido gan gyflogwr arall yn y cynllun, neu gorff allanol, ble bynnag y bo modd (gweler <u>Nodiadau (h) a (i) i 3.3</u>).</p> <p>Tynnu sylw'r darpar gyflogwr at ei oblygiadau a'i annog i gymryd cyngor actwaraidd annibynnol.</p> <p>Archwilio cefndir darpar gyflogwyr cyn eu caniatáu.</p> <p>Pan fo'r rheoliadau'n caniatáu hynny, gofyn am fond i amddiffyn y Gronfa rhag risgiau amrywiol.</p> <p>Angen i Gyrrff Cymunedol a Ganiateir newydd fod â gwarantwr.</p> <p>Adolygu trefniadau bondiau neu warantwr yn rheolaidd (gweler <u>Nodyn (f) i 3.3</u>).</p> <p>Adolygu cyfraniadau mewn da bryd cyn iddynt roi'r gorau i fod yn aelod, os teimlir fod hynny'n briodol (gweler <u>Nodyn (a) i 3.3</u>).</p>
<p>Cyflogwr ddim yn bodoli bellach gan arwain at gredyd ymadael yn daladwy</p>	<p>Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro yn rheolaidd cyrff a ganiateir sy'n dod i ben.</p> <p>Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn buddsoddi mewn asedau hylifol i sicrhau y gellir talu credydau ymadael pan fo angen.</p>

Atodiad D - Cyfrifo cyfraniadau Cyflogwr

Yn Adran 2 cafwyd disgrifiad bras o'r ffordd mae cyfraddau cyfraniadau yn cael eu cyfrifo. Mae'r Atodiad yma yn ystyried y cyfrifiadau hyn yn fanylach.

Fel a trafodwyd yn Adran 2, caiff y tri cam canlynol eu hystyried wrth osod cyfraniadau:

1. Cyfrifo y targed cyllido ar gyfer y cyflogwr hwnnw, h.y. amcangyfrif o swm yr asedau y dylai eu dal er mwyn gallu talu buddion ei holl aelodau. Gweler Atodiad E i gael mwy o fanylion pa ragdybiaethau a wnawn i bennu'r targed cyllido hwnnw;
2. Penderfynu ar y cyfnod amser sydd angen er mwyn adfer unrhyw ddiffyg. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (c) am fwy o wybodaeth;
3. Cyfrifo cyfradd cyfraniadau cyflogwyr fel bod ganddo o leiaf debygolrwydd penodol o gyflawni'r targed cyllido hwnnw dros y gorwel amser hwnnw, gan ganiatau ar gyfer amryw ganlyniadau economaidd posibl dros y gorwel amser hwnnw. Gweler y tabl yn 3.3 a Nodyn (e) am ragor o fanylion.

Mae'r cyfrifiadau yn golygu rhagdybiaethau actwaraidd am brofiad yn y dyfodol, ac fe'i disgrifir yn fanwl yn Atodiad E.

D1 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfrifiadau ar draws y Gronfa gyfan a chyfrifiadau ar gyfer cyflogwr unigol?

Fel arfer, mae cyfraniadau cyflogwr yn cynnwys dwy elfen:

- a) amcan gost o fuddiannau parhaus wedi eu cronni, y cyfeiriwyd ato fel "cyfradd cyfraniad sylfaenol" (gweler **D2** isod) yn ogystal â
- b) addasiad am y gwahaniaeth rhwng y raddfa Sylfaenol uchod a'r cyfraniad gwirioneddol sydd angen i'r cyflogwr ei dalu, y cyfeiriwyd ato fel y 'raddfa cyfraniadau eilaidd" (gweler **D3** isod).

Mae'r gyfradd gyfrannu i bob cyflogwr yn cael ei mesur fel yr uchod, yn briodol i sefyllfa gyllido bob cyflogwr a'r aelodaeth. Mae sefyllfa'r Gronfa gyfan, yn cynnwys yr hyn a ddefnyddiwyd i adrodd i MHCLG (gweler adran 5) wedi ei gyfrif fel y swm i holl gyfraddau cyflogwr unigol. Ar hyn o bryd mae MHCLG ond yn rheoleiddio ar lefel y Gronfa gyfan heb fonitro sefyllfa cyflogwr unigol.

D2 Sut mae cyfradd y cyfraniad Sylfaenol yn cael ei gyfrif?

Mae elfen Sylfaenol cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei gyfrif gyda'r nod y bydd y cyfraniadau hyn yn cwrdd â thaliadau buddion o safbwynt gwasanaeth yr aelodau yn y Gronfa yn y **dyfodol**. Seliwyd hyn ar gost (yn fwy na chyfraniadau'r aelodau) y buddion mae aelodau sy'n weithwyr yn ei ennill o'u gwasanaeth bob blwyddyn.

Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrifo ar wahân i'r holl gyflogwyr, er y bydd cyflogwr mewn pŵl yn talu'r gyfradd cyfraniadau fydd yn gymwys i'r gronfa gyfan. Caiff y gyfradd Sylfaenol ei chyfrif fel ei bod yn rhagamcanu ei bod yn:

1. cwrdd â'r targed cyllido gofynnol ar gyfer holl fuddion cronnus blynyddoedd yn y dyfodol*, heb gynnwys unrhyw asedau cronnus,
2. o fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler **nodyn 3.3 Nodyn (c)** am fwy o fanylion),
3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r cyflogwr (gweler **3.3 Nodyn (e)** am fwy o fanylion).

* Mae'r rhagamcan ar gyfer aelodaeth weithredol bresennol ble nad yw'r cyflogwr bellach yn derbyn dechreuwr o'r newydd, neu yn ychwanegol yn caniatáu dechreuwr newydd ble fo hynny yn briodol.

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd (the 'Economic Scenario Service' a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa sef Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa), chwyddiant ac elw bondiau. Caiff wybodaeth pellach am y model yma yn Atodiad E. Mae'r cyfraniadau yn cael eu cyfrif fel bod cyfran y canlyniadau sy'n cwrdd â tharged cyllido'r cyflogwr (ar ddiwedd y gorwel amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

Mae'r dull yn cynnwys treuliau gweinyddu i'r graddau fel eu bod yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa ac yn cynnwys lwfansau am fuddion sy'n daladwy os yw rhywun yn marw mewn gwasanaeth ac wrth ymdeol ar sail salwch.

D3 Sut mae cyfradd y cyfraniad eilaidd yn cael ei gyfrifo?

Nod y Gronfa yw bod gan y cyflogwr asedau sy'n ddigonol i fodloni 100% o'i rwymedigaethau cronedig ar ddiwedd ei orwel amser cyllido yn seiliedig ar ragdybiaethau targed cyllido'r cyflogwr (gweler Atodiad E).

Caiff y gyfradd eilaidd ei chyfrifo fel y balans dros ac uwchben y gyfradd Sylfaenol, fel bod y cyfanswm yn rhagamcanu i:

1. gwrdd â'r targed cyllido gofynnol sy'n ymwneud â holl fuddion cronnus gwasanaeth yn y dyfodol a'r gorffennol, yn cynnwys cyfran asedau cronnus (gweler **D5** isod)
2. o fewn y cyfnod amser a bennwyd (gweler **3.3 Nodyn (c)** am fwy o fanylion)
3. gyda thebygolrwydd digon uchel, fel y nodwyd gan strategaeth y Gronfa i gategori'r Cyflogwr (gweler **3.3 Nodyn (e)** am fwy o fanylion).

Mae'r rhagamcanion yn cael eu gweithredu drwy ddefnyddio modelwr economaidd a ddatblygwyd gan actwari'r Gronfa Hymans Robertson: mae hyn yn caniatáu i ystod eang o ddeilliannau o ran ffactorau allweddol fel enillion asedau (wedi eu seilio ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa), chwyddiant ac elw bondiau. Ceir rhagor o wybodaeth am y model hwn yn Atodiad E. Caiff y cyfraniadau a fesurwyd eu cyfrifo fel bod y gyfran o'r canlyniadau yn cwrdd gyda tharged cyllido'r cyflogwr (erbyn diwedd y cyfnod amser) yn hafal i'r tebygolrwydd gofynnol.

D4 Beth sydd yn effeithio ar ganlyniadau priso cyflogwr penodol?

Bydd canlyniadau'r cyfrifiadau hyn ar gyfer cyflogwr unigol penodol yn cael eu heffeithio gan:

1. gyfraniadau yn y gorffennol o'i gymharu â chost buddion cronnus;
2. gwahanol broffiliau ymrwymadau'r cyflogwr (e.e. cymysgedd o aelodau yn ôl oed, rhyw, gwasanaeth yn erbyn cyflog);
3. effaith unrhyw wahaniaethau yn y targed cyllido h.y. y sail brisio a ddefnyddiwyd i brisio ymrwymadau'r cyflogwr;
4. unrhyw gyfnodau amser gwahanol;
5. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i gyflog pensiynadwy;
6. y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i daliadau pensiwn a phensiynau gohiriedig;
7. y gwahaniaeth rhwng ymddeoliadau gwirioneddol a thybiedig ar sail salwch o statws gweithredol;
8. y gwahaniaeth rhwng symiau gwirioneddol a thybiedig o bensiwn yn dod i ben wedi marwolaeth;
9. costau ychwanegol unrhyw ymddeoliadau nad ydynt ar sail salwch o'i gymharu ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir; a/neu
10. y gwahaniaethau yn y tebygolrwydd gofynnol o gyflawni'r targed cyllido.

D5 Sut mae cyfran asedau pob cyflogwr yn cael ei gyfrifo?

Nid yw'r Awdurdod Gweinyddol yn gweithredu cyfrifon banc na mandadau buddsoddi ar wahân ar gyfer pob cyflogwr. Felly ni all gyfrifo am asedau pob cyflogwr ar wahân. Yn lle, rhaid i Actiwari'r Gronfa ddosrannu asedau'r Gronfa gyfan rhwng y cyflogwyr unigol. Yn fras mae dwy ffordd o wneud hyn:

- 1) Techneg a elwir yn "ddadansoddiad o warged" lle mae actiwari'r Gronfa yn amcangyfrifo gwarged / diffyg cyflogwr ar y dyddiad prisio cyfredol trwy ddadansoddiadau yn y gwarged / diffyg o'r dyddiad prisio actiwaraid blaenorol. Mae'r gwarged / diffyg amcangyfrifedig yn cael ei gymharu â gwerth atebolrwydd y cyflogwr i gyfrifo gwerth ased y cyflogwr. Bydd yr actiwari yn edrych ar effaith buddsoddiadau, aelodaeth a phrofiad arall i ddadansoddi'r symudiad yn y gwarged / diffyg. Mae'r dechneg hon yn gwneud nifer o ragdybiaethau syml oherwydd nad oes gwybodaeth am rhai eitemau ar gael. Wrth ddadansoddi'r gwarged, mae hyn yn arwain at eitem gydbwyso, neu amrywiol, sy'n cael ei rannu rhwng cyflogwyr yn gymesur â'u cyfran o ased.
- 2) 'Dull llif arian' lle mae asedau'r cyflogwr yn cael eu tracio dros amser gan edrych ar llif arian a delir i mewn (cyfraniadau, trosglwyddiadau i mewn ac ati), llif arian a dalwyd allan (taliadau buddion, trosglwyddiadau allan ac ati) ac enillion buddsoddi ar asedau'r cyflogwr.

Hyd at 31 Mawrth 2016 defnyddiodd yr Awdurdod Gweinyddol y dull 'dadansoddiad o warged' i ddosrannu asedau'r Gronfa rhwng cyflogwyr unigol.

Ers hynny, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu dull llif arian ar gyfer olrhain asedau cyflogwyr unigol.

Mae Actiwari'r Gronfa yn olrhain asedau cyflogwyr yn flynyddol. Gan ddechrau gydag asedau pob cyflogwr o ddiwedd y flwyddyn flaenorol, ychwanegir llif arian a dalwyd i mewn / allan ac enillion buddsoddi a gafwyd ar asedau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn i gyfrifo gwerth ased ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gan y dull hwn rai rhagdybiaethau symlach yn yr ystyr y tybir bod yr holl lifoedd arian ac enillion buddsoddiad wedi digwydd yn unffurf yn ystod y flwyddyn. Gan na chaniateir amseru gwirioneddol llif arian ac enillion buddsoddiad, bydd swm gwerthoedd asedau pob cyflogwr yn gwyro oddi wrth gyfanswm ased y gronfa gyfan dros amser (disgwylir i'r gwyrriad fod yn fach). Rhennir y gwahaniaeth rhwng cyflogwyr yn gymesur â'u canran o asedau ym mhob prisiaid teirblynyddol.

D6 Sut mae'r Gronfa'n addasu cyfranddaliadau asedau cyflogwyr pan fydd aelod unigol yn symud o un cyflogwr yn y Gronfa i un arall?

O dan y dull llif arian ar gyfer olrhain cyfranddaliadau asedau cyflogwyr, mae'r Gronfa wedi caniatáu i unrhyw aelodau unigol sy'n trosglwyddo o un cyflogwr yn y Gronfa i un arall, trwy drosglwyddo swm o gyfran asedau'r cyflogwr sy'n bwydo i gyfran asedau'r cyflogwr sy'n ei dderbyn. Mae'r swm hwn yn hafal i Werth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yr aelod (CETV) fel y cynghorir gan weinyddwyr y Gronfa.

Atodiad E - Rhagdybiaethau Actwaraidd

E1 Beth yw rhagdybiaethau actwaraidd?


Disgwyliadau yw'r rhain o brofiad y dyfodol a ddefnyddiwyd i roi gwerth ar daliadau buddion y dyfodol ("yr ymrwymadau"). Mae rhagdybiaethau yn cael eu gwneud am swm y buddion sy'n daladwy i'r aelodau (y rhagdybiaethau ariannol) a'r tebygolrwydd neu amseriad y taliadau (y rhagdybiaethau demograffig). Er enghraifft, mae rhagdybiaethau ariannol yn cynnwys enillion buddsoddiad, twf cyflog a chynnydd pensiwn; mae rhagdybiaethau demograffig yn cynnwys disgwyliad oes, tebygolrwydd o ymddeoliad yn sgil salwch a'r cyfraddau o farwolaethau aelodau sy'n arwain at dalu buddion i ddibynnyddion.

Bydd newidiadau mewn rhagdybiaethau yn effeithio ar y targed cyllido a'r gyfradd cyfraniadau gofynnol. Fodd bynnag, ni fydd gwahanol ragdybiaethau wrth gwrs yn effeithio ar y buddion gwirioneddol sy'n daladwy gan y Gronfa yn y dyfodol.

Mae dull yr actiwari o gyfrifo cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys taflunio taliadau buddion, cyfraniadau ac enillion buddsoddi pob cyflogwr yn y dyfodol o dan 5,000 o senarios economaidd posibl. Mae chwyddiant yn y dyfodol (ac felly taliadau budd-dal) ac enillion buddsoddi ar gyfer pob dosbarth ased (ac felly gwerthoedd asedau cyflogwyr) yn newidynnau yn yr amcanestyniadau. Trwy ragamcanu esblygiad asedau a thaliadau budd-dal cyflogwr 5,000 o weithiau, gellir gosod cyfradd cyfrannu sy'n arwain at nifer ddigonol o'r rhagamcanion hyn yn y dyfodol (a bennir gan debygolrwydd gofynnol y cyflogwr) yn llwyddiannus ar ddiwedd gorwel amser y cyflogwr. Yn y cyd-destun hwn, cyfradd cyfrannu llwyddiannus yw un sy'n golygu bod y cyflogwr wedi cyrraedd ei darged cyllido ar ddiwedd y gorwel amser.

Felly mae gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn ei gwneud yn ofynnol gwneud dau fath o dybiaethau am y dyfodol:

1. Rhagdybiaethau i ragamcanu asedau, buddion a llif arian y cyflogwr hyd ddiwedd y gorwel amser cyllido. At y diben hwn, mae'r actiwari yn defnyddio model economaidd stochastig perchnogol Hymans Robertson - y Gwasanaeth Senario Economaidd ("ESS").
2. Rhagdybiaethau i asesu a yw'r targed cyllido, ar gyfer amcanestyniad penodol, wedi'i fodloni ar ddiwedd y gorwel amser. At y diben hwn, mae gan y Gronfa dair sylfaen ariannu wahanol.



Ceir manylion am dybiaethau ESS a tybiaethau targed cyllido isod (o fewn E2 a E3).

E2 Pa dybiaethau sydd yn cael eu defnyddio yn yr ESS?

Mae'r actiwari yn defnyddio model ESS Hymans Robertson i daflunio ystod o ganlyniadau posibl ar gyfer ymddygiad enillion asedau a newidynnau economaidd yn y dyfodol. Gyda'r math hwn o fodolu, nid oes un ffigwr ar gyfer rhagdybiaeth ynghylch chwyddiant neu enillion buddsoddi yn y dyfodol. Yn lle, mae yna ystod o beth fydd chwyddiant neu enillion yn y dyfodol sy'n arwain at debygolrwydd y bydd dybiaeth yn uwch neu'n is na gwerth penodol.

Mae'r ESS yn fodel cymhleth i adlewyrchu'r rhyngweithio a'r cydberthynas rhwng gwahanol ddosbarthiadau o asedau a newidynnau economaidd ehangach. Mae'r tabl isod yn dangos graddnodi'r model ar 31 Mawrth 2019. Dangosir yr holl enillion yn net o ffioedd a chyfanswm yr enillion blynyddol dros 5, 10 ac 20 mlynedd, ac eithrio'r cynnyrch sy'n cyfeirio at y cynnyrch efelychiedig ar y gorwel hwnnw.

		Annualised total returns							RPI inflation expectation	17 year real govt bond yield	17 year govt bond yield
		Cash	Index Linked Gilts (medium)	Fixed Interest Gilts (medium)	UK Equity	Overseas Equity	Property	A rated corporate bonds (medium)			
5 years	16th %ile	-0.4%	-2.3%	-2.9%	-4.1%	-4.1%	-3.5%	-2.7%	1.9%	-2.5%	0.8%
	50th %ile	0.7%	0.5%	0.3%	4.0%	4.1%	2.4%	0.8%	3.3%	-1.7%	2.1%
	84th %ile	2.0%	3.3%	3.4%	12.7%	12.5%	8.8%	4.0%	4.9%	-0.8%	3.6%
10 years	16th %ile	-0.2%	-1.8%	-1.3%	-1.5%	-1.4%	-1.5%	-0.9%	1.9%	-2.0%	1.2%
	50th %ile	1.3%	0.0%	0.2%	4.6%	4.7%	3.1%	0.8%	3.3%	-0.8%	2.8%
	84th %ile	2.9%	1.9%	1.7%	10.9%	10.8%	7.8%	2.5%	4.9%	0.4%	4.8%
20 years	16th %ile	0.7%	-1.1%	0.1%	1.2%	1.3%	0.6%	0.7%	2.0%	-0.7%	2.2%
	50th %ile	2.4%	0.3%	1.0%	5.7%	5.8%	4.3%	1.9%	3.2%	0.8%	4.0%
	84th %ile	4.5%	2.0%	2.0%	10.3%	10.4%	8.1%	3.0%	4.7%	2.2%	6.3%
	Volatility (Disp) (1 yr)	1%	7%	10%	17%	17%	14%	11%	1%		

E3 Pa ragdybiaethau a ddefnyddir yn y targed cyllido?

Ar ddiwedd gorwel amser cyllido cyflogwr, cynhelir asesiad - ar gyfer pob un o'r 5,000 amcanestyniad - o sut mae'r asedau a ddelir yn cymharu â gwerth yr asedau

sy'n ofynnol i gyflawni'r taliadau budd-dal yn y dyfodol (y targed cyllido). Mae gwerthfawrogi cost buddion yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r actiwari wneud rhagdybiaethau am y ffactorau ariannol canlynol:

- Cynnydd mewn buddion ac ailbriso CARE
- Twf cyflog
- Enillion buddsoddiadau (y 'gyfradd ddisgownt')

Mae pob un o'r 5,000 amcanestyniad yn cynrychioli amgylchedd economaidd gwahanol ar ddiwedd y gorwel amser cyllido ac felly mae'n annhebygol y bydd un gwerth sefydlog ar gyfer pob rhagdybiaeth yn briodol ar gyfer pob amcanestyniad. Er enghraifft, ni fyddai enillion buddsoddiad tybiedig uchel yn y dyfodol (cyfradd ddisgownt) yn ddarbodus mewn rhagamcanion gyda rhagolwg gwan ar gyfer twf economaidd. Felly, yn lle defnyddio gwerth sefydlog ar gyfer pob rhagdybiaeth, mae'r actiwari yn cyfeirio at ddangosyddion economaidd i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n parhau'n briodol ar gyfer yr amgylchedd economaidd cyffredinol ym mhob amcanestyniad. Y dangosyddion economaidd y mae'r actiwari yn eu defnyddio yw: disgwyliadau chwyddiant yn y dyfodol a'r gyfradd enillion ddi-risg gyffredinol (defnyddir yr elw ar fondiau tymor hir llywodraeth y DU fel dirprwy ar gyfer y gyfradd hon).

Mae gan y Gronfa dair sylfaen ariannu a fydd yn berthnasol i wahanol gyflogwyr yn dibynnu ar eu math. Mae gan bob sail ariannu ragdybiaeth wahanol ar gyfer enillion buddsoddiad yn y dyfodol wrth bennu targed cyllido'r cyflogwr.

Sail cyllido	Sail cyfranogi parhaus	Sail ymadael y contractwr	Sail ymadael risg isel
Math o gyflogwr	Pob cyflogwr ond am Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir a Cyrff Cymunedol a Ganiateir	Cyrff Trosglwyddo a Ganiateir	Cyrff Cymunedol a Ganiateir sydd wedi cau i gyflogwyr newydd
Rhagdybiaeth enillion buddsoddiad sy'n sail i darged cyllido'r cyflogwr (ar ddiwedd ei orwel amser)	Enillion bondiau tymor hir y llywodraeth ynghyd â thybiaeth perfformiad gwell asedau (AOA) o 1.7% p.a.	Enillion bondiau tymor hir y llywodraeth ynghyd a AOA yn hafal i AOA a ddefnyddir i ddyrannu asedau'r cyflogwr pan ymuno a'r Gronfa.	Enillion bondiau tymor hir y llywodraeth gyda dim lwfans ar gyfer perfformio'n well ar asedau'r Gronfa.

E4 Pa ragdybiaethau arall sydd yn berthnasol?

Y rhagdybiaethau canlynol yw'r rhai gyda'r arwyddocâd mwyaf a ddefnyddir wrth ragamcanu'r asedau, y buddion a'r llif arian ac yn y targed cyllido.

a) Twf cyflog

Ar ôl trafod gyda swyddogion y Gronfa, mae'r dybiaeth cynnydd cyflog ym mhrisiad 2019 wedi'i bennu i fod yn gyfradd gyfun wedi'i chyfuno o:

1. 2% y.f. tan 31 Mawrth 2022 ac yna dilynir gan
2. 0.5% uwchben Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) y flwyddyn wedi hynny.

Mae hyn yn gyfystyr â rhagdybiaeth cynnydd cyflog unigol CPI +0.3% y.f.

Mae hyn yn newid o'r prisiad blaenorol oedd yn tybio 1% y.f. 2020, ynghyd â CPI +0.5% y.f. wedi hynny. Roedd hyn yn cyfateb i dybiaeth sengl o CPI.

Mae'r newid wedi arwain i gynydd yn y targed cyllido (gyda phopeth arall yn gyfartal).

b) Cynnydd mewn pensiwn

Ers 2011 CPI yn hytrach na RPI fu sail cynnydd pensiwn sector cyhoeddus gohiriedig a phensiynau taladwy. Dalier sylw fod sail cynnydd o'r fath wedi ei osod gan y Llywodraeth ac nid yw o dan reolaeth y Gronfa nag unrhyw gyflogwyr.

Yn y prisiad yma rydym wedi defnyddio gostyngiad o 1.0% y flwyddyn. (Nodwch fod y gostyngiad yn cael ei ddefnyddio ar sail geometrig nid rhifyddeg).

c) Disgwyliad Oes

Bwriedir i'r tybiaethau demograffig fod yr amcangyfrifon gorau ar gyfer profiad y Gronfa yn y dyfodol ar sail profiad cronfeydd CPLIL yn y gorffennol sy'n cymryd rhan yn 'Club Vita', y gwasanaeth dadansoddol hirhoedledd a ddefnyddiwyd gan y Gronfa ac a gefnogwyd gan yr actwari.

Mae'r rhagdybiaethau hirhoedledd a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad yn gyfres bwrpasol o 'VitaCurves' sydd wedi'u cynhyrchu gan ddadansoddiad manwl Club Vita ac wedi eu teilwra'n benodol i gyd-fynd â phroffil aelodau'r gronfa. Seliwyd y rhain ar y data a ddarparwyd gan y Gronfa i ddibenion y prisiad hwn.

Gwnaed lwfans yn y sail brisio barhaus ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn unol â fersiwn 2018 o'r model Ymchwilio i Farwolaethau Parhaus a gyhoeddwyd gan y Proffesiwn Actiwaraidd ac isafswm o 1.25% y flwyddyn yn sail i ostyngiadau mewn cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Yn gyffredinol, bydd y lwfans wedi'i ddiweddarau hwn ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn arwain at ragdybiaethau disgwyliad oes is ac felly targed cyllido is (bydd pob peth arall yn gyfartal).

Mae'r dull a gymerwyd yn cael ei ystyried yn rhesymol o gofio natur hirdymor y Gronfa a'r lefel dybiedig o sicrwydd i danategu buddion aelodau.

d) Cyffredinol

Mabwysiadwyd yr un tybiaethau ariannol ar gyfer y mwyafrif o gyflogwyr wrth gyrraedd at y targed cyllido sy'n tanategu cyfraddau Sylfaenol ac eilaidd fel a ddisgrifiwyd yn (3.3), mae'r ffigyrau hyn a gyfrifwyd wedi eu trosi mewn gwahanol ffyrdd i gyfraniadau cyflogwr, yn dibynnu ar amgylchiadau'r cyflogwr.

Mae'r rhagdybiaethau demograffig, yn enwedig y rhagdybiaeth disgwyliad oes, mewn gwirionedd yn amrywio yn ôl y math o aelod gan felly adlewyrchu gwahanol broffiliau aelodaeth cyflogwyr.

Atodiad F - Rhestr Termiau

Sail Gyllido	Cyfres gyfunol o ragdybiaethau wnaed gan actwari, am y dyfodol, i gyfrifo gwerth y targed cyllido ar ddiwedd gorwel amser y cyflogwr . Bydd y prif ragdybiaethau yn ymwneud â'r lefel dychweliadau y dyfodol , twf cyflog, cynnydd pensiwn a hirhoedledd. Bydd rhagdybiaethau mwy darbodus yn rhoi gwerth targed uwch, ble bydd rhagdybiaethau mwy optimistaidd yn rhoi gwerth is.
Yr Awdurdod Gweinyddu	Y cyngor gyda chyfrifoldeb statudol am redeg y Gronfa, mewn gwirionedd 'ymddiriedolwyr' y Gronfa.
Cyrff Mynediad	Cyflogwyr ble fo Cytundeb Mynediad yn nodi beth yw rhwymedigaethau'r cyflogwr. Gall y rhain fod yn Gyrrff Mynediad Cymunedol neu Gyrrff Mynediad wedi eu Trosglwyddo. I gael rhagor o fanylion (ewch i <u>2.3</u>).
Cyfamod	Cryfder ariannol y cyflogwr wedi'i asesu. Mae cyfamod cryf yn dangos mwy o allu (a pharodrwydd) i dalu am ymrwymadau pensiwn yn y tymor hir. Bydd cyfamod gwannach yn golygu ei bod yn ymddangos y gall y cyflogwr gael trafferthion i gwrdd â'i ymrwymadau pensiwn yn llawn dros y tymor hirach.
Cyflogwr Dynodedig	Cyflogwyr fel cyngorau cymuned a thref sy'n gallu cymryd rhan yn y CPLIL drwy benderfyniad. Gall y cyflogwyr hyn ddynodi pa weithwyr sy'n gymwys i ymuno â'r Gronfa.
Cyflogwr	Corff unigol sy'n cymryd rhan yn y Gronfa, sy'n cyflogi (neu yn arfer cyflogi) aelodau o'r Gronfa. Fel arfer, bydd gwerth yr asedau a'r targed cyllido i bob cyflogwr yn cael eu holrhain yn unigol ynghyd a'r gyfradd sylfaenol ymhob prisiad .
Giltiau	Bond Llywodraeth y DU, h.y. addewid gan y Llywodraeth i dalu llog a chyfalaf yn unol â thelerau'r giltiau penodol hynny, am daliad cychwynnol cyfalaf gan y prynwr. Gall giltiau fod yn rhai gyda 'llog sefydlog' ble mae'r taliadau llog yn parhau yn gyson drwy gyfnod y giltiau neu yn 'gysylltiedig â'r mynegai' ble mae'r taliadau llog yn amrywio bob blwyddyn yn unol â mynegai penodol (fel arfer RPI). Gellir prynu giltiau fel asedau gan y Gronfa ond eu prif ddefnydd ariannu yw fel mesur diddyledrwydd gwrthrychol.
Gwarant / gwarantwr	Addewid ffurfiol gan drydydd parti (y gwarantwr) y bydd yn cwrdd ag unrhyw ymrwymadau pensiwn nad ydynt yn cael eu cwrdd gan gyflogwr penodol. Bydd presenoldeb gwarantwr yn golygu er enghraifft y gall y Gronfa ystyried cyfamod y cyflogwr i fod mor gryf â'i warantwr.
Cyflogwr gosod	Cyflogwr sy'n allanoli neu'n trosglwyddo rhan o'i wasanaethau a gweithlu i gyflogwr arall (fel arfer contractwr). Bydd y

contractwr yn talu tuag at y buddion CPLIL a gasglwyd drwy drosglwyddo aelodau, ond yn y pen draw bydd yr ymrwymiad i dalu am y buddion hyn yn mynd yn ôl i'r cyflogwr gosod. Fel arfer, bydd cyflogwr gosod yn awdurdod lleol, ond weithiau gall fod yn fath arall o gyflogwr fel Academi.

CPLLL	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn sector cyhoeddus a sefydlwyd drwy Reoliadau'r Llywodraeth i weithwyr mewn llywodraeth leol. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn pennu cymhwyster (yn arbennig ar gyfer Cyrff ar yr Atodlen) cyfraddau cyfraniadau aelodau, cyfrifon buddion a rhai gofynion llywodraethu. Rhannwyd y CPLIL yn 101 Cronfa sy'n mynd dros y DU. Mae pob Cronfa CPLIL yn annibynnol i'r graddau nad yw yn cael ei bennu gan Reoliadau e.e. ynglŷn â'r strategaeth fuddsoddi, cyfraniadau cyflogwr a dewis o ymgynghorwyr.
Aeddfedrwydd	Term cyffredinol i ddisgrifio Cronfa (neu sefyllfa cyflogwr mewn Cronfa) ble mae'r aelodau yn agosach i ymddeol (neu mwy ohonynt eisoes wedi ymddeol) a bod y cyfnod buddsoddi yn fyrrach. Mae gan hyn oblygiadau i'r strategaeth fuddsoddi ac yn sgil hynny'r strategaeth gyllido.
Aelodau	Yr unigolion sydd wedi cronni (ac efallai yn dal i gronni) eu hawliau yn y Gronfa. Cânt eu rhannu yn aelodau gweithredol (aelodau presennol sy'n weithwyr), aelodau gohiriedig (cyn-weithwyr sydd heb ymddeol eto) a phensiynwyr (cyn-weithwyr sydd wedi ymddeol a dibynyddion cyn-weithwyr ymadawedig).
Cyfradd Cyfraniad Sylfaenol	Cyfradd cyfraniad y cyflogwr sydd ei angen i dalu am fuddion cronnus parhaus aelodau gweithredol (yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol). Gweler Atodiad D am fwy o fanylion.
Proffil	Mae proffil aelodaeth y cyflogwr neu'r ymrwymiad yn adlewyrchu amryfal fesuriadau aelodau'r cyflogwr hwnnw, h.y. gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae hyn yn cynnwys: y cyfrannau sy'n weithredol, gohiriedig neu yn bensiynwyr; oed cyfartalog bob categori; amryfal lefel cyflogau neu bensiwn; hyd gwasanaeth aelodau gweithredol yn erbyn eu lefel cyflog ac ati. Gall proffil aelodaeth (neu ymrwymiad) hefyd gael ei fesur ar gyfer ei aeddfedrwydd .
Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau	Dogfen ffurfiol sy'n ofynnol gan Reoliadau CPLIL, ac mae'n rhaid ei diweddarau o leiaf bob tair blynedd wedi cwblhau'r prisiad ffurfiol. Caiff hwn ei gwblhau gan yr actwari ac mae yn cadarnhau'r cyfraniadau sydd i'w talu gan bob cyflogwr (neu gronfa o gyflogwyr) i'r Gronfa am y cyfnod tair blynedd tan fo'r prisiad nesaf wedi ei gwblhau.

Cyrff ar yr Atodlen	Mathau o gyflogwr a ddiffinnir yn benodol yn Rheoliadau CPLIL, y mae'n rhaid cynnig aelodaeth i'r cyflogwyr o'u Cronfa CPLIL. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau, colegau, prifysgolion, academiâu, yr awdurdodau'r heddlu a thân ac ati heblaw am y gweithwyr hynny sydd â hawl i gynllun pensiwn sector cyhoeddus gwahanol (e.e. athrawon, swyddogion yr heddlu a thân, darlithwyr prifysgol).
Sefydlogi	Unrhyw ddull a ddefnyddir i lyfnhau newidiadau yng nghyfraniadau cyflogwr o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn ofynnol yn fras gan y rheoliadau CPLIL ond yn ymarferol caiff ei ddefnyddio ar gyfer cyflogwyr mawr sefydlog yn y Gronfa.
Prisiad	Ymarfer rheoli risg i adolygu cyfraddau cyfraniadau Cynradd ac Eilradd, a gwybodaeth statudol arall ar gyfer Cronfa, a chyflogwyr unigol fel arfer hefyd.

Atodiad G- Polisi Credyd Ymadael

Mae'r isod yn nodi'r canllawiau y bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn eu dilyn werth bennu swm credyd ymadael sy'n daladwy i gyflogwyr sy'n darhod yn unol â Rheol 64 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ("y Rheoliadau"). Dylid nodi mai canllawiau yn unig yw'r rhain a bydd y Gronfa hefyd yn ystyried unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol fesul achos. Gall yr ystyriaethau hyn arwain at benderfyniad a fyddai'n wahanol pe bai rhywun yn cadw at y canllawiau hyn yn drwyadl. Ymhob achos, bydd y Gronfa yn egluro ei rhesymeg dros unrhyw benderfyniad.

Cyrff a ganiateir

- Ni fydd unrhyw gredd ymadael yn daladwy mewn perthynas â derbyniadau a ymunodd â'r Gronfa cyn 14 Mai 2018 oni bai ei fod yn destun trefniant rhannu risg yn unol â phwynt b). Cyn y dyddiad hwn, ni chaniatawyd taliad credyd ymadael o dan y Rheoliadau a bydd hyn wedi'i adlewyrchu yn y telerau masnachol y cytunwyd arnynt rhwng y corff a ganiateir a'r awdurdod gosod/ awdurdod dyfarnu/ cyflogwr sy'n bwydo. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw dderbyniad cyn 14 Mai 2018 sydd wedi'i estyn nei ei 'rolio drosodd' ar yr un telerau ag a oedd yn berthnasol wrth ymuno â'r Gronfa.
- Bydd y Gronfa yn gwneud taliad credyd ymadael yn unol ag unrhyw gytundebau cytundebol neu rannu risg sy'n ymwneud yn benodol â pherchnogaeth credydau ymadael/ gwargedion rhoi'r gorau iddi neu os yw'r corff a ganiateir a'r awdurdod gosod wedi cytuno ar unrhyw ddull arall (sy'n gyson â'r Rheoliadau ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill). Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon, a fydd yn cynnwys pa barti sy'n gyfrifol am ba risg cyllido, i'r Gronfa mewn dogfen glir a diamwys gyda chytundeb y corff a ganiateir a'r awdurdod gosod/

awdurdod dyfarnu/ cyflogwr sy'n bwydo ac o fewn mis i y corff a ganiateir yn darfod cymryd rhan yn y Gronfa.

- c) Os oes unrhyw anghydfod gan y naill barti neu'r llall ynglŷn â dehongli cytundebau cytundebol neu rannu risg fel yr amlinellir yn b), bydd y Gronfa yn dal yn ôl talu'r credyd ymadael nes bod anghydfodau o'r fath wedi'u datrys.
- d) Bydd y Gronfa hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdod gosod/ awdurdod dyfarnu/ cyflogwr sy'n bwydo ynghylch arian sy'n dyledus iddynt gan y corff a ganiateir mewn perthynas â'r contract sy'n dod i ben neu unrhyw drefniant cytundebol arall rhwng y ddau barti. Rhaid i'r awdurdod gosod/ awdurdod dyfarnu/ cyflogwr sy'n bwydo wneud sylwadau o'r fath mewn dogfen glir a diamwys o fewn mis ar ôl i'r corff a ganiateir darfod cymryd rhan yn y Gronfa.
- e) Pan fo trefniant gwarantwr mewn lle, ond nad oes trefniant rhannu risg ffurfiol yn bodoli, bydd y Gronfa'n ystyried sut mae'r dull o bennu cyfraddau cyfraniadau sy'n daladwy gan y corff a ganiateir yn ystod ei gyfranogiad yn y Gronfa yn adlewyrchu pa barti sy'n gyfrifol am gyllido risgiau. Bydd y penderfyniad hwn yn llywio'r penderfyniad ar werth unrhyw daliad credyd ymadael.
- f) Os daw'r cytundeb derbyn i ben yn gynnar, bydd y Gronfa'n ystyried y rheswm dros ei therfynu'n gynnar, ac a ddylai hynny fod yn berthnasol i benderfyniad y Gronfa o werth unrhyw daliad credyd ymadael. Yn yr achosion hyn, bydd y Gronfa'n ystyried y gwahaniaeth rhwng cyfraniadau cyflogwr a dalwyd (gan gynnwys enillion buddsoddiad a enillwyd ar yr arian hwn) a maint unrhyw warged rhoi'r gorau iddi.
- g) Mae penderfyniad y Gronfa yn derfynol wrth ddehongli sut mae unrhyw drefniant a ddisgrifir o dan b), d), e) ac f) yn berthnasol i werth taliad credyd ymadael.
- h) Os bydd corff a ganiateir yn gadael ar sail darfod giltiau (oherwydd nad oes gwarantwr yn ei lle), yna bydd unrhyw gredyd ymadael yn cael ei dalu'n llawn i'r cyflogwr fel rheol.

Cyrff ar yr Atodlen a Chyrff a Benderfynir

- a) Ble mae trefniant gwarant mewn lle, ond dim trefniant rhannu risg ffurfiol yn bodoli, mae'r Gronfa yn ystyried sut mae'r ffordd o osod cyfradd cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr yn ystod ei gyfraniad yn y Gronfa yn adlewyrchu pa sefydliad sydd yn gyfrifol am ariannu'r risg. Mae'r penderfyniad yma yn penderfynu gwerth o unrhyw daliad credyd ymadael.
- b) Ble nad oes gwarant ffurfiol mewn lle, ond bod y Gronfa yn ystyried sut mae'r ffordd o osod cyfradd cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr yn ystod ei gyfraniad yn y Gronfa yn adlewyrchu maint y mae'n gyfrifol o ariannu'r risg. Mae'r penderfyniad yma yn llywio penderfyniad gwerth unrhyw daliad credyd ymadael.

- c) Mae penderfyniad y Gronfa yn derfynol yn dehongli sut mae unrhyw benderfyniad yn a) a b) yn berthnasol i werth taliad credyd ymadael.
- d) Os yw corff ar yr atodlen neu gorff a benderfynir yn dod yn gyflogwr sy'n gadael oherwydd ad-drefnu, uno neu gymryd drosodd, does dim taliad credyd ymadael yn cael ei dalu.
- e) Os yw corff ar yr atodlen neu gorff a benderfynir yn gadael ar sail cyfrifiad gilts (oherwydd bod dim gwarant mewn lle), yna bydd y taliad credyd yma yn cael ei dalu yn llawn gan y cyflogwr.

Cyffredinol

- a) Mae'r Gronfa yn cynghori'r cyflogwyr sydd yn gadael yn ogystal ar awdurdod gosod a/ neu unrhyw gyflogwyr perthnasol y gronfa o'r penderfyniad o wneud penderfyniad credyd ymadael o dan Reol 64.
- b) Yn ddarostyngedig ar unrhyw rhannu risg neu drefniant arall a ffactorau sydd wedi eu trafod uchod, wrth benderfynu sefyllfa cyllido derfynol mae'r Gronfa yn gwneud asesiad cyffredinol yn seiliedig ar werth y cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr yn ystod eu cyfnod cyfranogi, ac yr asedau a oedd wedi ei ddyrannu pan ymunwyd gyda'r Cynllun a'r dychweliadau buddsoddi priodol sydd wedi eu hennill ar y ddau.
- c) Mae'r Gronfa yn asesu os yw unrhyw gyfraniadau sydd yn ddyledus neu arian sydd yn ddyledus i'r Gronfa yn parhau i fod heb ei dalu erbyn y dyddiad darfyddiad. Os oes, sefyllfa ddiodyn y Gronfa ydi i dynnu'r rhain o unrhyw daliad credyd ymadael.
- d) Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Pennaeth Cyllid, ar y cyd gyda chyngor gan Actwari'r Gronfa a/neu gyngor cyfreithiol ble'n berthnasol, gan ystyried y pwyntiau o fewn y polisi yma.
- e) Mae'r Gronfa yn derbyn bod rhai sefyllfaoedd sydd yn unigryw ei natur ac nid ydynt yn disgyn i unrhyw gategori uwchben. Yn y sefyllfaoedd yma mi fydd y Gronfa yn trafod ei ddull o benderfynu credyd ymadael gyda'r holl bartion. Mae penderfyniad y Gronfa yn y sefyllfaoedd yma yn derfynol.
- f) Mae'r Gronfa yn cynghori'r cyflogwr sydd yn ymadael o'r swm sydd yn ddyledus ac yn sicrhau taliad o fewn chwe mis i'r dyddiad gadael. Er mwyn cwrdd gyda'r amserlen chwe mis, mae'r Gronfa angen hysbysiad yn syth o ymadawiad y cyflogwr ar holl ddata a Gwybodaeth berthnasol yn ôl y gofyn. Nid yw'r Gronfa yn gallu gwneud unrhyw daliad credyd ymadael nes ei fod yn derbyn yr holl wybodaeth o ofynnwyd amdano.